

ECO'R WYDDFA

RHIF 284

RHAGFYR 2001

PRIS 40c

*Daw Rhifyn
y Nadolig
o'r Wasg
ar Rhagfyr 20*



Bonheddwr Mawr o'r Bryn



Keith ac Eleri Fôn yn ymlacio ar y Ranch.

Mae cymaint o gwyno am ymddygiad rhai pobl ifanc y dyddiau hyn. Peth braf iawn felly yw cael cyfle i gyflwyno'r hanesyn hwn i ddarllenwyr yr Eco.

Tua diwedd mis Gorffennaf eleni daeth galwad ffôn i Bryn, Cwm-y-glo. Eleri Fôn oedd yno yn gofyn i Keith a fuasai o'n hoffi mynd i America - eto! Cafodd Keith fynd i Aspen, Colorado llynedd yn un o griw dethol o bobl ifanc. Aethant yno i fwynhau gwyliau a drefnwyd yn arbennig ar eu cyfer.

Roedd gan y criw ifanc hyn un peth yn gyffredin. Roedd pob un wedi wynebu afiechyd anodd iawn - unai cancr neu liwcimia. Roeddynt i gyd hefyd wedi dod yn ffrindiau da gyda nyrs Eleri, sydd wedi gofalu am nifer fawr o blant Gwynedd a'r gogledd bellach tra maent yn derbyn triniaeth ac yn brwydro mor ddewr yn erbyn yr afiechyd. Mae gan y plant a'r bobl ifanc hyn feddwl y byd ohoni. Mae Eleri hefyd yn gefn aruthrol i'w teuluoedd fel y gall Margaret a Gwilym Williams (rhieni Keith) dystio mor barod.

Mae Eleri yn gweithio ar y cyd gyda Dr Jim ac maent yn trefnu i godi arian ym

Mhrydain ac yn yr Amerig. Gyda'r arian hwn maent yn gallu trefnu gwyliau go arbennig i tua deuddeg o blant a phobl ifanc bob haf yn y Silver Lining Foundation Research yn Aspen. Dyna sut cafodd Keith fynd yno llynedd.

Ond pam cael dychwelyd yno? Yn syml iawn, fe wnaeth Keith gymaint o argraff ar y staff a'r nyrsus yno fel y daeth gwahoddiad ganddynt hwy iddo ddod yno eto gyda Eleri er mwyn helpu'r plant oedd ar y trip eleni. Felly mynd yno i weithio wnaeth o y tro hwn. Ac roedd wrth ei fodd - yn merlota, chwarae tenis, cerdded llwybrau a nofio ymhlith rhai o'r gweithgareddau. Dim rhyfedd iddo fwynhau ei hun!

Mae chwe mlynedd union i'r wythnos hon er pan gafodd teulu'r Bryn wybod fod Keith angen llawdriniaeth fawr ac wedyn y byddai misoedd o ofal dwys o'u blaenau. Brawychwyd ein hysgol fach ni - am na chaem ei gwmi siriol am weddill ei flwyddyn olaf yn ysgol Cwm-y-glo. Dychrynwyd pentref a chymdogaeth gyfan a phawb yn pryderu amdano. Ond daeth pawb at ei gilydd fel un teulu mawr ac, mewn llai nag

wythnos, casglwyd drso £1000 i sefydlu cronfa iddo. Gwn fod y teulu wedi bod yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth



Criw o ffrindiau yn haul Colorado.

RHAID I NI DDATHLU

Gan fod Hogia'r Wyddfa wedi diddori cynulleidfaoedd dros gyfnod o bum degawd bellach; wedi torri eu cwys eu hunain yn y byd canu poblogaidd ac wedi cyflwyno ar ddisgiau dros gant o ganeuon brethyn cartref, y farn gyffredin oedd fod yn 'rhaid dathlu'. Gwnaent hynny ar ddechrau canrif newydd drwy gyflwyno casgliad arall o ganeuon.

yma oedd yn glod, wrth gwrs, i ardal gyfan.

Erbyn heddiw mae Keith wedi cwblhau ei yrfa yn yr ysgol uwchradd ym Mrynrefail ac wedi bod yn llwyddiannus yn ei arholiadau terfynol yn wyneb bob anhawster. Rydym mor falch ei fod wedi gwella cystal ac yn mynd o nerth i nerth rwan. Mae bellach yn dilyn cwrs yng Ngholeg Menai. Gair o ganmoliaeth gywir iddo ym mhobman a hynny am fod ganddo bersonoliaeth mor arbennig o annwyl ac ymroddiad llwyr i bob ymdrech.

Nid yw'n ddim syndod i mi fod Dr Jim, Andrea, Beene, Heidi, Jen, Mamta a Petra a ffrindiau eraill yn America eisiau ei weld eilwaith, ac roedd Eleri Fôn wrth ei bodd yn cael ei gwmi eto. Pob dymuniad da i ti Keith i'r dyfodol, dal ati a diolch i ti am fod cystal cennad dros Gymru a Chwm-y-glo.

Mair Lloyd Hughes

Yn 1992 penderfynodd Richard Morris roi'r gorau i gyfeilio iddynt. Roedd wedi profi ei hun yn gyfeilydd o safon ac yn gyfeilydd cefndir diguro. Roedd yr ysfa i barhau yn y gweddill o'r aelodau ac, ar eu cais, cytunodd Annette Bryn Parri eu cynorthwyo. Dim ond Annette fyddai wedi gallu eu harwain ar hyd llwybr

(parhad ar dudalen 3)

ECO'R WYDDFA

RHIF 284
RHAGFYR

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, RHAGFYR 10

Os gwelwch yn dda

**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 20**

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

BRYSIWCH!

Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch CYW IÂR
a CHIGOEDD
ERAILL
RŴAN



oddi wrth


Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -


Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS



DIGWYDDIADAU NADOLIG 2001

NADOLIG Y CHWARELWR

• Rhagfyr 2 - 16
Dewch draw i weld ein rhesiad o Dai Chwarelwyr
wedi'u haddurno i'w y cyfnod

PRYNHAWN O GAWL & CHÂN

• Rhagfyr 2 2pm - 4pm
Prynhawn o ganu yng nghwmni
Hogia'r Bonc a'r Boncathod
o Fethesda

GWEITHDAI NADOLIG

• Rhagfyr 9 (1pm - 3pm)
GWEITHDY DECOUPAGE
& ARDDANGOSIAD GWNEUD
MATIAU RHACS

• Rhagfyr 16 (1pm - 3pm)
GWEITHDY GWNEUD
'YSTAFELL MEWN BOCS'
& ARDDANGOSIAD GWNEUD MATIAU RHACS

Nadolig Llawn & Blwyddyn Newydd Dda i
holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

MAE MYNEDIAD AM DDIM I'R GWEITHGAREDDAU UCHOD OND
DYLID BWCIO LLE AR GYFER

Y PRYNHAWN CAWL A CHÂN A'R GWEITHDAI CREFFT.

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
LLANBERIS


digwyddiadaullechi@aocc.ac.uk ☎01286 870630

(parhad o'r dudalen flaen)

gwahanol, ffres, ac eto, gwneud hynny heb amharu ar y naws a'r sain a grewyd eisoes. Datblygodd y bartneriaeth dros y blynyddoedd a ffrwyth ei llafur diflino hi yw'r casgliad hwn. Hi hefyd ynghyd â Bryn Jones sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r cyfanwaith. Cyflwynir y ddisg gan Annette a'r hogia er cof am Richard Hugh Morris.

Bydd y ddisg yn cael ei lansio nos Sul, 9 Rhagfyr yn Neuadd y P.J. ym Mhrifysgol Bangor am 7 o'r gloch mewn cyngerdd arbennig. Yr artistiaid fydd Hogia'r Wyddfa, Gwyn Hughes Jones, Annette Bryn Parri, Ysgol Glanaethwy, Seindorf Arian Deiniolen, Cofnod, Bedwyr, Plant Ysgolion Y Faenol a'r Garnedd gyda Gwyn Parri yn arwain y noson. Bydd elw'r cyngerdd yn mynd i Hospis yn y Cartref.

Fandaliaeth ym Methel



Y gysgodfan bysus yn esiampl o'r fandaliaeth a welyd ym Methel yn ddiweddar – gweler newyddion y pentref am y stori.

Bwrlwm a Chyffro'r Nadolig yn Antur Waunfawr

Mae'r Antur yn fwrlwm o weithgaredd drwy gydol y flwyddyn, ond mae awyrgylch arbennig iawn o gwmpas y lle yn y cyfnod yn arwain at 'Dolig. Pob adran yn brysur yn paratoi nwyddau i'w gwerthu, ac o gaffi Blas y Waun mae arogl danteithion hyfryd yn treiddio i fewn i'r swyddfeydd uwchben. Rwy'n sicr y bydd genod y swyddfa wedi rhoi dipyn o bwysau ymlaen ymhell cyn y gwleddau swyddogol dros y gwyliau!

Yn ogystal â phrysurdeb paratoi prydau, ar gyfer y bobl ffodus sydd wedi trefnu eu partion Nadolig yn Blas y Waun, mae criw y caffi wedi bod yn eithriadol brysur eleni yn cwblhau archebion am deisennau a phwdinnau Nadolig, bara brith, ham a mins peis, i gyd wedi eu paratoi a'u coginio gan griw y caffi. Nid yw mins peis yn un o'm hoff fwydydd fel arfer, ond wedi gweld dwsin ohonynt yn oeri yn

y gegin y diwrnod o'r blaen, gyda arogl brandy a'r cranberis yn goch o dan haenen drwchus o siwgr eisin rwyf wedi archebu dau ddwsin i'r teulu.

Mae amryw ohonoch wedi trefnu eich parti Nadolig yn Blas y Waun, ond cofiwch, mae'r criw yn darparu cinio Nadolig cartref amser cinio hefyd, sy'n ddelfrydol ar gyfer grŵp o ffrindiau sydd eisieu mwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd i ddathlu'r Wyl yn gynnar.

Yn siop Bryn Pistyll, mae mwy o ddewis o anrhegion nac erioed. Mae pob adran wedi bod wrthi'n datblygu nwyddau crefft newydd ar gyfer y Nadolig. Cofiwch alw os ydych yn chwilio am anrhegion anghyffredin i'ch teulu a'ch ffrindiau. Mae criw y Parc Natur wedi bod yn brysur ar ddyddiau gwlyb yn cynhyrchu dewis o grochenwaith unigryw yr Antur, tra bu tîm y gerddi yn gwneud drychoedd chwaethus

drwy ail-ddefnyddio drychau. Mae'r nwyddau newydd yma i gyd yn ychwanegol i ddewis Nadolig arferol y siop – y cardiau, papur lapio, jams a siwti.

Yn y ganolfan arddio bydd prysurdeb mawr gyda pharatoi torchau a chyflenwi archebion am goed Nadolig. Cofiwch archebu eich coeden chi mewn da bryd – rhag ofn i chi gael siom.


Yn fwy na dim galwch heibio'r Antur cyn 'Dolig i fwynhau yr hwyl a'r sbri sy'n digwydd yng nghanol y cyffro a'r gwaith caled.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Jane Evans, Antur Waunfawr

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Ysgol Brynrefail Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Rhieni a Llywodraethwyr i'w ddilyn gan Gyfarfod Blynyddol Cyfeillion yr Ysgol yn Llyfrgell yr Ysgol 10 Rhagfyr 2001 am 7.00 yr hwyr

Noson Garolau Ysgol Brynrefail Rhagfyr 17 am 7.00 o'r gloch yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill



O SIAMBAR SELWYN

Llandudno, Dolgellau, Marian-glas, Treuddyn, Llanrhaeadr ym Mochnant, Llangefni, Deiniolen, Caerhun a Bethel. Dyna'r llefydd y ces i'r fraint o ymweld â nhw yn ystod y deufis diwetha 'ma, naill ai i feirniadu mewn eisteddfod neu i roi pwt o ddarlith i Gymdeithasu Llenyddol.

Mae'n rhyfedd fel y mae un yn dod ar draws rhai o Fro'r Eco ble bynnag yr ewch chi, neu rhywun sydd â chysylltiad â'r fro hon, ac yn derbyn yr Eco yn rheolaidd.

Trysorydd Clwb y Gogarth, Llandudno yw Evan Wyn Evans, brodor o Ddeiniolen a bu'n fy atgoffa fel y bu'n gweithio i mi ar rai achlysuron. Tad Evan oedd y llyfrgellydd yn Neiniolen, a phan oedd o ar ei wyliau roedd Evan yn gwneud y gwaith yn ystod gwyliau'r haf ac, wrth gwrs, fel Clerc y Cyngor Plwy, roeddwn innau yn talu cyflog iddo. Fo dalodd i mi yn Llandudno.

Evan hefyd wnaeth fy atgoffa o'r gwyliau a gawsom gyda'r diweddar I. B. Griffith yn yr Iseldiroedd. Roedd y diweddar ddramodydd Gwenlyn Parry yn y cwmni hefyd. Un noson fel gollodd maer y pentref ei feic, ac fe'i canfyddwyd y bore wedyn ger ein gwesty ni. Ys gwn i pwy fu mor hy a benthyca beic y maer i fynd yn ôl i'w westy y noson honno? Ia, ys gwn i?

Aelod gweithgar arall o Glwb y Gogarth ydi'r ysgrifennydd, W. H. Jones, a fu'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn Llanberis am flynyddoedd. Mae o'n aelod ffyddlon o Orsedd y Beirdd hefyd.

Dwi ddim yn cofio i mi gael gwell cystadleuaeth am Fedal Ieuencid erioed nag a gefais yn Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni. Naw yn cystadlu a'r naw yn gwbwl deilwng o'r anrhydedd, a da oedd deall fod yna dalentau lleol ymysg y goreuon. Y llenor ifanc buddugol oedd Iwan Rhys o Gaerfyrddin - bardd cadair yr Urdd y llynedd. Hyfryd oedd

gweld llond bws o gefnogwyr wedi dod i Ddeiniolen gydag o i ddathlu ei fuddugoliaeth. Gobeithio y gwelwn ni waith ein llenorion lleol yn yr Eco cyn bo hir.

Teithio i Ddolgellau i Gymdeithas Lenyddol Idris ar noson eithriadol o stormus, a chael syndod fod yna gymaint wedi troi allan ar noson mor fawr. Cael sgwrs ddifyr hefo H. R. Jones a fu'n hyfforddi Parti Adrodd Wnion am flynyddoedd. Hyfryd oedd cael sgwrs â Jean Hughes hefyd (merch Co' Bach.)

Dwi'n cael y fraint o fynd i Eisteddfod Marian-glas ers rhai blynyddoedd bellach, a da yw sylwi bod 'na adfywiad arbennig yno, fel ag sydd ym mhob Eisteddfod y bûm ynddi yn ddiweddar. Roedd 'na un brawd arbennig iawn yn mwynhau ei hun fel gwrandawr yn yr eisteddfod hon, sef y canwr enwog o Lanbedrgeoch, Gwyn Hughes Jones. Roedd y gynulleidfa yn gwerthfawrogi ei bresenoldeb. Onid yno y dechreuodd o ar ei yrfa ddisglair? Gyda llaw roedd Gwyn yn adroddwr addawol hefyd, ac fe ges i'r fraint o roi sawl gwobr iddo pan oedd o'n hogyn ysgol.

Yn Eisteddfod Llandyrnog fe dderbyniais i 220 o sgriptiau i'w beirniadu a chalonogol oedd sylwi i ysgolion Uwchradd a Chynradd y cylch gefnogi'r eisteddfod. Mae'n amlwg fod ymweliad y Brifwyl â'r fro wedi ysbrydoli'r bobl ifanc. Enillwyd y Gadair yno gan ferch ifanc o'r fro, Catrin Lyall, sy'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor. Os darllenwch chi gyfrol *Taliesin* (Hydref) fe welwch chi ei hymateb hi i waith celfyddydol Prifwyl Dinbych. Daeth ei thad ataf ar ddiwedd y seremoni gan ymfalchïo yn y ffaith fod teulu Catrin yn huanu o Fethel. Ydw, rydw i'n cofio'r teulu yn byw yn Cremllyn. Fe glywn ni fwy am Catrin Lyall, yn sicr.

Roedd 'na wyneb

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU...

RHOSTIO MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CROESO. Mae ein croeso yn wresog i deulu newydd a symudodd i Enlli, ger Stad Erw Nant. Gobeithio y bydd Tudur ac Alwena a'u dwy ferch fach, Ffion a Lois, yn cartrefu yn fuan yn ein plith.

O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth ar ei dychweliad gartref wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Bu'n amser pryderus yr wythnosau diwethaf i Gwawr Morris, prif ddosbarthwr yr Eco yn y pentref a'i phriod. John, yn ystod gwaeledd eu mab, Dylan sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Caerdydd. Da deall ei fod yn gwella'n foddhaol.

SAFLE'R HEN YSGOL SIR. Aeth dros flwyddyn heibio ers pan ddymchwelwyd yr Hen Ysgol Sir a hynny yn drawiadol iawn pan oedd y gweithgareddau yn mynd ymlaen i ddathlu canmlwyddiant yr Ysgol. Gwacter fu'n meddiannu'r fan ers y chwalfa ond yn ystod yr wythnosau diwethaf dychwelodd y peiriannau unwaith eto a pharatoi

amlwg yn mynd ymlaen tuag at godi'r Ganolfan Grefftau a gynlluniwyd ar gyfer y safle. YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Cyfraniadau. Yn ddiweddar gwnaed y casgliad blynyddol tuag at Gronfa Gymdeithas y Beibla a throsglwyddwyd y swm o £76.50 i Drysorydd Cangen Deiniolen a'r Cylch o'r Gymdeithas.

Mewn cais i Apêl Argyfwng Affganistan casglwyd y swm o £155 a'i gyflwyno i gronfa Cymorth Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Unwaith eto eleni cefnogwyd Apêl Nadolig y Plant gyda nifer o'r aelodau yn paratoi blychau fel anrhegion Nadolig. Trefn Oedfaon Rhagfyr.

2: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 2;

9: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 2;

16: Gwasanaeth Nadolig dan nawdd yr Aelodau a Phlant yr Ysgol Sul am 10.00;

23: Ni chynhelir Gwasanaeth.

30: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 10.00.

cyfarwydd ymysg aelodau Cymdeithas Lenyddol Moreia, Llangefni hefyd, ble roedd 'na tua 80 wedi troi i fyny. Gwilym Williams (brodor o Ddeiniolen) ydi Cadeirydd y Gymdeithas. Gwilym ydi dirprwy-Brifathro Ysgol Gyfun Llangefni ac roedd o'n cofio'r dyddiau pan feddwn i'n mynd o gwmpas tai cyngor Deiniolen i hel rhenti. Ia, llawer blwyddyn yn ôl bellach. Ond dyddiau difyr.

Wrth gwrs, roedd Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant yn garreg filltir eisteddfodol arbennig i mi. Wela i mo'r pum cant yn sicr.

Mae'r daith dros y Berwyn bob amser yn hyfryd yn yr Hydref. Dyma'r ardal sy'n paratoi ar gyfer Prifwyl 2003 a gynhelir ym Meifod. Bydd yr Wyl Gyhoeddi yn y Trallwng ar ddydd Sadwrn, 29 Mehefin 2002.

Yn oriau mân bore Sul, 18 Tachwedd cyrraedd adre o Eisteddfod Treuddyn (yr olaf am eleni). Y llynedd doedd 'na neb wedi cystadlu am y Gadair. Eleni mentrodd dwsin - a hanner dwsin am y Fedal Lenyddol. Ac unwaith eto roedd 'na gysylltiad agos â Bro'r Eco gan i Dafydd Guto, o Fethel, ennill y Fedal am stori fer. Fe enillodd Fedal Lenyddol Eisteddfod Dyffryn Ogwen yr

un noson).

Enillwyd y Gadair gan Hilma Lloyd Edwards - hi enillodd gen i yn Gwaun Gynfi hefyd. Roedd cadair Treuddyn y 41 cadair iddi. Rydwi wedi darogan ers tro byd y gwelwn ni Hilma rhwng breichiau'r Gadair Genedlaethol cyn bo hir, ac wrth gwrs mae 'na gysylltiad lleol - mae Hilma yn aelod o dim Talwrn y Beirdd Llanrug.

Roedd Eisteddfod Treuddyn hefyd yn wyl lwyddiannus. O ydi, mae'n bleser cael crwydro Cymru i ymdrin â'r PETHE, a chael cyfarfod â rhai sydd â chysylltiad agos â Bro'r Eco ac sy'n weithgar gyda Chymdeithasau Llenyddol ac yn llwyddiannus yn ein Eisteddfodau.

Calonogol hefyd ydi'r ffaith fod yna ryw adfywiad rhyfeddol ym myd ein heisteddfodau lleol i'w deimlo led-led Cymru. Hir y parhau.

Ydi'n amser i ni ystyried sefydlu eisteddfod farweddog - rhydd i'r byd - ym mro'r Eco?

Cefnogwch
ein
hysbysebwy

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Gyrn a Ghroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyliuo Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

Un funud fach

ARWYDD

Mae'r rhwydwaith lonydd beics wedi ehangu'n arw yng Nghymru'n ddiweddar, ac crbyn hyn mae'n debyg bod modd reidio'n ddiogel o'r De i'r Gogledd. Bydd llawer ohonoch yn gwybod bod yna lôn beics o Ben Llyn i Lanberis ar hyd llwybr yr hen reilffordd. Gallech feddwl felly na welech chi'r un beic ar y lôn bost droellog, ond nid felly mae hi. Mae beicwyr yn dal i ddefnyddio'r ffordd o Ben Twnal i Lanberis gan anwybyddu'r llwybr sydd wedi ei ddarparu ar eu cyfer.

Ond tybed faint ohonynt sy'n gwneud hynny'n fwriadol? Mae'n debyg bod llawer yn gwibio heibio Pen Twnal heb sylweddoli bod yna lwybr yno ar eu cyfer. Mae angen gwell arwyddion yno, ac yng Nglynrhonwy o ran hynny. Pa sens cael lôn beics os nad oes arwyddion clir i gyfeirio beicwyr ati?

Iesu Grist yw'r ffordd at Dduw. Fo hefyd yw'r ffordd i'r bywyd tragwyddol. Ac os ydych yn credu ynddo, rydych wedi'ch gosod yn arwyddbost i gyfeirio pobl eraill ato. Ond sut fath o arwydd ydych chi? Ydych chi'n dweud wrth bobl mai trwy Iesu y cawn nhw faddeuant pechodau? Ydych chi'n dweud wrth bobl mai Iesu yw'r ffordd i'r nefoedd? Mae'r ffordd ar gael i bobl, ond fyddan nhw'n gwybod dim amdani os na fydd rhywun yn dweud wrthyn nhw.

Er iddyn nhw fynd heibio'r lôn beics ym Mhen Twnal mae'r reidwyr yn cyrraedd y pentra'n ddiogel. Mae'r lôn bost yn dod â nhw yma'n hwylus. Ac mae'n fwy na thebyg bod llawer ohonynt yn dewis dilyn y ffordd honno yn hytrach na'r llwybr pwrpasol. Ond nid felly mae hi efo'r ffordd i'r bywyd. Os bydd pobl yn dewis anwybyddu'r ffordd honno, ddown nhw ddim i ben draw'r daith yn ddiogel. Ddaw pobl ddim i'r nefoedd, chawn nhw mo'r bywyd tragwyddol heb iddyn nhw gredu yn yr Arglwydd Iesu

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

YMDDEOLIAD. Llongyfarchiadau i Rosie Lloyd, 2 Bythynnod, Rhos Bach ar ei hymddeoliad. Faint o ymddeoliad gaiff hi tybed hefo dwy wyres ifanc yng Nghaeathro?

PENCAMPWRAIG. Mae Hannah Hughes, Llyngele wedi ei dewis i fod yn aelod o garfan ieuencid Judo Cymru. Yn ddiweddar roedd hi'n ymarfer gyda gweddill aelodau'r garfan yn ne Cymru. Nid trwy chwarae bach mae hi wedi ennill ei lle, ond trwy ymarfer caled a chyson a disgleirio mewn cystadlaethau ar hyd a lled Cymru.

CYNGORCYMUNED CAEATHRO Cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar nos Iau, 8 Tachwedd er mwyn trafod egwyddorion ac effaith ffordd osgoi bosibl o amgylch Caernarfon, rhwng Llanwnda a Phlas Menai. Disgwylir y bydd cylchdroadau newydd yn y Bontnewydd a Thyddyn Hen, Ffordd Bethel wedi'u cwblhau cyn Pasg 2002. Pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn unrhyw argymhellad o Gyngor Gwynedd fod angen ffordd o'r fath, mae'n annhebygol o'i hagar ymhen deng mlynedd. Y llwybr mwyaf tebygol ger Caeathro fyddai gwelliannau i'r ffordd bresennol rhwng Rhos-bach a Phonrug. Roedd y cyfarfod o blaid llwybr cerdded a beicio gyferbyn ag unrhyw welliant. Llwybr posibl arall yw'r un o Rhos-bach ac ymlaen a tharo'r A4086 gyda cylchdro rhwng Bryn Eden a Phlas Treflan, wedyn ymlaen i gyfeiriad Cibyn a chylchdro ar Ffordd Llanberis. Un ffordd neu'r llall, bydd traffig ychwanegol trwy Gaeathro. Felly roedd yn angenrheidiol pwyso o'r dechrau am bafin rhwng Pont Pëblig a Chaeathro a mesurau go iawn i arafu traffig drwy'r pentref.

NOSON GOFFI A FFAIR GAEAF. Codwyd dros £465 yn y Noson Goffi a Ffair Gaeaf yn y 'Festri' ar

Grist. A dyna pam ei bod mor bwysig cael arwyddbyst clir ac effeithiol i'w cyfeirio ato.

Crist yw'r ffordd, a'r unig ffordd. A braint y rhai sy'n credu ynddo yw cyhoeddi hynny'n eglur a chyfeirio pobl ato.

JOHN PRITCHARD

8 Tachwedd. Mae swyddogion Capel Caeathro yn dra diolchgar i bawb a oedd yn rhan o'r llwyddiant: y trefnwyr, yr aelodau, y cyfeillion, y plant ac eraill am eu rhoddion a'u gwariant.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Bydd y Gwasanaethau canlynol yn ystod mis Rhagfyr:

2: 11.00 Ysgol Sul; 2.00 Pregeth gan Mr Huw Jones;

9: 11.00 Ysgol Sul;

16: 11.00 Ysgol Sul; 5.00 Canu Carolau o amgylch y Goeden Nadolig.

Gofynnir i'r aelodau orffen eu taliadau ar gyfer Cronfa'r Weinidogaeth trwy law unrhyw un o swyddogion y Capel erbyn 10 Rhagfyr.

CRICEDWYR CYMREIG. Mae Tom Evison, erbyn rwan, wedi derbyn cynnig i ymuno â Sir Forgannwg ac wedi troi'i gefn ar gae Thomas Lord yn Llundain.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhaliwyd y CCB yn Nhafarn Bryngwna ar 19 Tachwedd ac etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd: Clive James; Ysgrifennydd: Tim Lloyd; Trysorydd: Huw Ceiriog. Ail-etholwyd Alun Roberts, Dafydd Jones, Richard Jones, Peris Thomas, Wyn Jones, Eryl Jones, Steven Rees a Norman Hughes i'r Pwyllgor. Talwyd diolch i Dafydd Roberts, Ceidwad y Peli, wrth iddo sefyll i lawr o'r Pwyllgor. Gan fod seddi gweigion erbyn hyn bydd y

Pwyllgor yn enwebu - mae angen 'genod' arnom. Penodwyd Vera Roberts a Clive James fel Ymddiriedolwyr newydd. Derbyniwyd y fantolen a diolchir i'r Trysorydd am ei waith, gellir ei gweld ar hysbysfwrdd y pentref.

TYNFA FISOL. Enillwyr mis Tachwedd oedd £40 (13): Peter a Vera Hughes, Pennant; £25 (77): Mair Roberts, Sw'n y Gwynt; £15 (71): Clive James, Hafan; £5 (03): Eryl Jones, Bryn Mair.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod fel a ganlyn: nos Lun, 8 Rhagfyr am 8.00 ym Mryngwna; bore Sadwrn 8 Rhagfyr am 10.00 er mwyn codi'r Goeden Nadolig; nos Lun, 17 Rhagfyr am 8.00 ym Mryngwna er mwyn y Dynfa Fisol a Thyfa Nadolig.

SIÔN CORN. Mae'r Pwyllgor Cae Chwarae wedi trefnu i Siôn Corn ymweld â phlant iau Caeathro ar nos Fawrth, 18 Rhagfyr. Gofynnir i blant oed ysgol gynradd neu iau ddod â'u rhieni a'u ceir i faes parcio Tafarn Bryngwna am 5.45 yr hwyr.

DIACONIAID. Ar ddydd Sul, 11 Tachwedd derbyniwyd Mrs Nan Humphreys, Pant, Bryngwyn, Llanrug a Mrs Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Caeathro yn ddiagoniaid etholedig yng Nghapel Salem, Caernarfon. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonynt.



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON

(01286) 673190



GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

CHWILOTA

Y Sefydliad Coffa Llanrug



Llun anghyffredin o'r Sefydliad Coffa wedi ei dynnu oddi mewn i borth Capel Hermon gyferbyn.

Fel yr eglurais y mis diwethaf, er fod Y Sefydliad Coffa yn Llanrug wedi ei agor ar ei newydd wedd yn ystod Medi eleni, mae'r nodiadau sy'n dilyn yn sôn am yr ymdrech i sefydlu canolfan gymdeithasol i'r pentref yn fuan wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd casglu arian wedi bod yn mynd rhagddo yn bur rheolaidd, ac erbyn Nadolig 1921 roedd adeilad a adnabyddid bryd hynny fel Eryri House, yn barod i'w addasu yn gartref i'r sefydliad coffa newydd.

Cynhaliwyd Ffair Nadolig ar y 30ain o Ragfyr 1921 (ie, bum niwrnod wedi'r 'dolg!) yn Ysgol Bryneryr gyda'r amcan o gasglu digon o arian i brynu piano i'r Sefydliad. Gwnaethpwyd elw o £75. Does dim gwybodaeth i nodi a oedd y cyfanswm hwn yn ddigonol i'r pwrpas. Efallai mai'r piano hwnnw sy'n dal yno hyd heddiw!

Erbyn Ionawr 1922 roedd hysbysebion yn ymddangos yn y wasg leol yn gwahodd adeiladwyr i dendro am y gwaith. Dyma sut yr ymddangosod yr hysbyseb yn y Caernarvon and Denbigh Herald ddechrau'r flwyddyn:

'Tenders are invited for converting and adapting Eryri House, Llanrug into a Memorial Club. Plans and specifications to be seen at Ddôl Helyg, Cwm y Glo or at the Architect's Office, Market Street, Caernarfon. Sealed tenders to be addressed to R. T. Griffith, Ddôl Helyg on or before Tuesday, 17th of January 1922. The lowest or any tender will not necessarily be accepted.'

Sylwer mai 'memorial club' ymddangosodd yn yr hysbyseb, ond fel 'Memorial Institute' y câi'r adeilad ei adnabod gan y pentrefwyr.

Cwta naw mis fu'r cyfnod o addasu yr hen Eryri House a'i droi'n Sefydliad Coffa Arwyr Llanrug, a hynny ar gost o £800. Cynhaliwyd yr agoriad swyddogol ar ddydd Sadwrn, 23 Medi 1922 gyda Mrs Lloyd George yn wraig wadd. Ar yr un diwrnod cynhaliwyd bazaar a gynhyrchodd elw o £150.

Yr hyn sy'n ddi-ddorol ynglŷn â hanes Y Sefydliad yw

fod gor-wyres ac wŷr i ddau o'r Ymddiriedolwyr cyntaf yn 1922 yn Ymddiriedolwyr ar yr adeilad newydd eleni.

Pwy oedd Yvonne?

Daeth dau ymateb i'r cais y mis diwethaf ynglŷn â'r ysgrifennu yn llyfr Mat Pritchard. Roedd Mrs Mair Parry o Lanllyfni a Mrs Amy Smith o Lanrug yn cytuno mai Yvonne Williams oedd yr eneth y cyfeirir ati. Roedd yn byw bryd hynny yn Nhreforfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ac yr oedd ganddi chwaer o'r enw Lily. Fe'i disgrifir fel geneth dal, athletaidd, ac un dda iawn am chwarae hoci. Yn ôl pob tebyg, symudodd o'r ardal i fyw, a bu farw yng nghyffiniau Croesoswallt. Mae hynny, efallai, yn egluro sut y bu i'r llyfr 'Dros Bont Penllyn' ddarganfod ei ffordd ar hyd y gororau o Groesoswallt i'r Gelli.

Dywedwyd hefyd fod ei thad ag urddau eglwysig, ac y câi ei adnabod yn Llanrug fel Person Mawr neu Ciwrad Mawr. Oes bosibl mai ef oedd y Parch Hugh Williams a fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r llyfryn prin erbyn heddiw - *Welsh Rural Parishes?*

Pwy oedd Barlwydon?

A thra yn Llanrug, oes unrhyw un â gwybodaeth ynglŷn â Robert John Davies a gladdwyd ym mynwent Llanrug ar 19 Mai 1930. Roedd yn ffordd o Flaenau Ffestiniog, ac yno y bu'n byw ac yn gweithio am y rhan helaethaf o'i oes. Câi ei adnabod dan yr enw barddol 'Barlwydon'. Pam tybed y claddwyd ef yn Llanrug? A oedd plant iddo wedi sefydlu yn yr ardal, ac yntau wedi dod i fyw at un ohonynt ar ddiwedd ei

oes? Neu a oedd yna gysylltiadau eraill rhwng y brodor hwn o 'Stiniog â Llanrug?

Bro Deiniolen

Pwy tybed oedd awdur y llawysgrif y soniais amdani y mis diwethaf, ac a gopiwyd o lyfr nodiadau cymeriad a gâi ei adnabod yn Neiniolen fel Eban Knockin? Gyda diolch i W. Orwig Williams am fenthyg y copi. Mae rhannau'r llawysgrif yn amlwg yn copïo gwaith awduron eraill, ac yn dyfynnu o weithiau eraill. Cynhwysir pennill o waith Dewi Peris ynddo sy'n disgrifio lleoliad y Waen Gynfi:

*Atelir y gogleddwynt trwm
Gan uchel drum y Rhiwen;
A'r corwynt cryf o'r dawyrain dir
Gan yr Elidir lydan;
Fe gauodd anian fur o'i chylch
Yn ogyrch, ond un agen.*

Mae'n ymddangos mai allan o draethawd Dewi Peris ei hun y mae'r copïwr wedi ysgrifennu rhannau helaeth o'r gwaith. Fe gyhoeddwyd y traethodau buddugol yn dilyn cystadleuaeth yn Undeb Llenyddol Deiniolen yn ystod y Nadolig 1868. Ail-gyhoeddwyd y casgliad yn 1985 gan Siop y Pentan, Caernarfon.

Ond os mai copi yw'r llawysgrif o rannau o'r traethodau buddugol, pwy oedd Eban Knockin? Ai y fo oedd yn gyfrifol am eu copïo, yntau copi yn ei feddiant a gafodd ei ail-gopïo?

Mwy am Alarch Gwyrfaï

O'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth y daeth rhywfaint mwy o wybodaeth am Robert Hughes, y gŵr o'r Waunfawr a'i galwai ei hun yn 'Alarch Gwyrfaï'. Mae'n ymddangos ei fod yn ohebydd i'r papur wythnosol *Llais y Wlad*. Cyhoeddodd o leiaf dri o lyfrau: *Gwinllan yr Awen* (cyhoeddwyd yn 1877), *Ceinion Gwyrfaï* (1890) a *Baner y Tamlwyr Da* (dim dyddiad). Methais hyd yma a chael copi o unrhyw un o'r tri llyfr. Oes copi ar gael ym meddiant unrhyw un o'r fro? Os nad oes, yna bydd angen taith arall i'r Gelli Gandryll!

Molawd i Ffynnon Cegin Arthur

Derbyniais lythyr gan Fred Williams, Wrecsam (Bethel gynt) yn nodi fel y darlloedd yn yr 'Eco' am hanes ymweliad y Dr Anne Ross â Llanddeiniolen. Ysgogodd hynny iddo chwilio ym mhapurau ei daid, y diweddar John Edward Williams, Rhyd y Fwch. Yn y papurau rheini roedd gwybodaeth am sut y daeth y meddyg A. Wynn Williams i ddarganfod gwerthoedd iachusol y ffynnon ac ysgrifennu llyfr amdani.

Mae hefyd yn cynnwys molawd i'r ffynnon. Ai John Edward Williams ei hun oedd y

bardd?

Mae Ffynnon Cegin Arthur yn gosod i ni gysur, A'i dyfroedd purdan, llawn o hoen Yn gwella poen a dolur. Ei dyfroedd tra iachusol a ennill glod yn hollol; Drwy iachau pob llesg a gwael, Hwyl haeddent gael ei chanmol. Dyw Buxton, Chil'ham, hefyd, a Bath a'i ddyfroedd hyfryd, A Malvern Wells yn ddim i hon Er adfer llon yr iechyd. Am hon mae son yn rhyfedd trwy Gymru yn gyfannedd, Dos yno yf ei dwfr yn rhad Os gelli, gurad ei rhinwedd."

'Yr wyf yn cofio ymweld ag adfeilion y ffynnon,' meddai Fred Williams, 'ac wrth edrych arnynt, ei chael yn anodd sylweddoli fod dŵr o'r ffynnon yn cael ei werthu drwy Brydain.' Mae'n mynd rhagddo i gynnig syniad i'r fro heddiw: 'Gan fod dŵr potel yn boblogaidd iawn y dyddiau hyn, tybed fyddai'n werth adfer y ffynnon a chychwyn busnes?' Sgwn i pwy yw perchennog y tir heddiw, faint o fenter sydd yn y fro i werthu dŵr o Gegin y Brenin Arthur ei hun! Mae'r syniadau am hysbysebion yn ddbendraw.

Ar ddiwedd ei lythyr mae'n cyfeirio hefyd at gartref Dewi Orwig yn y Crawia. 'Gallaf gofio bwyta gwsberis o ardd yr hen adfeilion. Roedd yn amlwg wedi bod yn dŷ sylweddol ar un adeg, ond roedd ei leoliad braidd yn anghysbell, ac mewn perygl pan fyddai'r afon yn gorlifo.'

Mwy o waith Dewi Orwig

Gan Ms Ceri Foulkes, Deiniolen y casglwyd yr englynion coffa hyn ym mynwent Macpela. Mae'n amau fod llawer mwy o englynion o'i waith ar y beddfeini yn y fynwent ac mewn mynwentydd eraill y fro. Dyma ddau englyn am y tro:

Ar fedd William M. Roberts, Sinc.

*O hir William Morris siriol - a fu
Dan faich poenau llethol;
A daeth ei haf doeth i'w nôl
Uwch angen o'i nych ingol.*

Ar fedd William T. Parry, Bryn Rhedyn, Clwt y Bont.

*Diwyd weithiwr, gŵr rhagorol - ydoedd
Darbodus a drwïol;*

*A cheir ing a bwch ar ôl - ei gladdu
Ar wedd Iesu cwyd eto'n urddasol.*

A dyna'r cyfan am y tro. Cofiwch anfon pwt o wybodaeth neu ymateb i unrhyw un o'r hanesion uchod. Does dim sicrwydd y byddant yn ymddangos yn y rhifyn nesaf - mae angen ysgrifennu ar gyfer hwnnw cyn i'r inc orffen sychu ar hwn!

Yn rhifyn y Nadolig, hanes englyn arall ar garreg fedd yn y fro hon, ond heb sicrwydd pwy na phryd y'i hysgrifennwyd.

Anfonwch unrhyw ohebiaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



Ar Ben Arall y Lein

Mae'n bleser y mis yma cael cyflwyno adroddiad ein Cadeirydd Mr Maurice M. Jones, Penllyn ar weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod 2001 i'r Pwyllgor Blynyddol a gynhelir yn yr Institiwt, Caernarfon ar nos Iau, 13 Rhagfyr 2001.

Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf unwaith eto gyflwyno fy adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas.

1. Y Tymor

Ar ôl tymor llwyddiannus llynedd, mawr oedd y disgwyl am Fawrth 2001 ond anodd yw credu fel mae amgylchiadau ar adegau yn gweithio yn ein herbyn. Cyfeirio yr wyf wrth gwrs at glwy'r traed a'r genau a amlygodd ei hun mor frawychus ar Ynys Môn. Mae ei effaith yn bell-gyrhaeddol oddi fewn i'n cymunedau a bydd hyn i'w deimlo am flynyddoedd eto.

Beth oedd ei effaith ar y clwb? Rhyw ychydig ddyddiau cyn 1 Mawrth, sef yr amser y bydd y rhan fwyaf o'r aelodau'n talu eu haelodaeth, cyhoeddwyd gwaharddiadau ar fynediad i dir, ac felly caewyd y drws ar bysgota am beth amser. Rhaid i mi ganmol yr aelodau a ymunodd ar yr amser anodd yma. Hebddynt mi fuasai pethau yn go ddu. Ond yn anffodus nid oedd pawb o'r un feddwl ac y mae oddeutu 50 heb ymaelodi. Yn ogystal nid oedd yn bosib gwerthu yr un tocyn ar Lyn Padarn hyd nes agorwyd y pysgota'n gyffredinol ar 28 Mai. Mae Padarn yn dod ag incwm sylweddol yn ystod wythnosau cynnar y tymor. Felly rhaid ystyried y ffaith fod cyfrif y Gymdeithas wedi ei heffeithio yn ddrwg drwy amgylchiadau a oedd yn hollol allan o'n rheolaeth. Bydd yn rhaid ymdrin â hyn yn ystod y cyfarfod.

Ar ochr llawer ysgafnach a phleserus, pan agorwyd y pysgota er bod lefel yr afonydd

yn isel fe gafwyd pysgota arbennig ar Lyn Dywarchen. Ar adegau roedd y pysgota'n galed ond rhaid canmol safon y pysgod a gwaith arbennig gan dîm y ddeorfa.

Ar y Llyfni mae'r sgota wedi bod yn eithriadol, gyda rhifau'r pysgod dros y cyfrifydd ym Mhontllyfni yr uchaf o Awst ymlaen ers tair blynedd.

Mae pethau'n gwella ar y Seiont gyda safon y dŵr yn ôl i'w safon cyn y broblem erchyll a amlygodd ei hun yn 1992. Mae nifer yr eog a'r sewin o'r diwedd yn dangos cynnydd sylweddol a, gyda gobaith mai eleni fydd y flwyddyn olaf i'r estyniad arbrofol i'r tymor. Gobeithio yn wir y bydd hyn yn barhaol o 2002. Beth yw eich barn a hoffech weld rheol pluen yn unig yn parhau?

Ar y Gwyrfaei mae pethau yn dal i fod yn araf, gyda dŵr yn cael ei ddal yn ôl yng nghronfa Cwellyn, felly nid yw'r pysgod yn cael llif naturiol. Bydd yn rhaid cyfeirio at y broblem yma yn y misoedd nesaf.

Ein Heiddo

Yn ystod Rhagfyr 2000 cwblhawyd pryniant Llyn Cwellyn drwy nawdd y Fenter Goedwigaeth a'r Cyngor Chwaraeon. Yn ogystal fe adeiladwyd cyfleuster mynediad ac angori cychod yno, nawdd yma gan Parc Eryri drwy gynllun CAE ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gorffennwyd cynllun angori cychod hefyd ym Mhenllyn. Mae'n bosib yma nawr, fel ar Cwellyn, yrru lawr at y cychod, hwylus dros ben yn enwedig i'r rhai ac anhawster mudoledd. Diolch yma eto i Asiantaeth yr Amgylchedd am gefnogi'r fenter.

Mae hawl cynllunio wedi ei dderbyn ar Felin y Cim a gobeithiwn weld cynigion am y gwaith addasu i uned hunan gynhaliol yn cael eu dosbarthu cyn y Danolig.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CLWB ORWIG

Dangoswyd nifer fawr o luniau trawiadol o amryw leoedd yn y byd gan y ffotograffydd, Ray Wood, mewn cyfarfod o Glwb Orwig yng Nghanolfan Mynydd Blue Peris yr wythnos ddiwethaf. Gan fod Mr Wood yn arbenigwr ar dynnu lluniau o ddringwyr dangosodd i ni olygfeydd ysblennydd ac, yn eu plith, olygfeydd neilltuol o fynyddoedd Eryri. Diolchwyd iddo gan Terry Taylor, a oedd ei hun

wedi dangos lluniau o'r lleoedd y bu ef yn dringo ynddynt yn ein cyfarfod diwethaf.

Darparwyd y te gan Nellie Wyn Jones a Morfudd Jones. Enillwyd y raffl gan Sue Michaels. Yr enillydd arall oedd Barbara Parkinson, a groesawyd yn ôl o'i hymwelliad â'i theulu yn Seland Newydd. Bu mor garedig â dod ag anrheg yn ôl o'i thaith i bob un o'r aelodau. Gwnaed trefniadau terfynol ar gyfer y Cinio Nadolig.

Bu'r Gymdeithas yn rhan o Gynllun llwyddiannus 'Datblygu Pysgodfeydd Gwynedd' (Amcan 1) a luniwyd gan Gyngor Gwynedd, mae £435,000 i'w ddefnyddio i wella cynefinoedd afonydd Gwynedd, a defnyddir oddeutu £80,000 o'r arian yma at waith ar ein tair afon.

Mae'n sicr fod y rhan fwyaf o'r aelodau wedi gweld y gwaith sydd wedi mynd ymlaen i hwyluso a thwtio'r sgota yn Crawia, diolch i bawb am eu gwaith.

Hyfforddi

Drwy nawdd cynllun Sportlot Cist Gwynedd, cynhaliwyd diwrnodiau hyfforddi eto eleni ar Cwellyn a Dywarchen, llwyddiannus dros ben eto, ac fel gobaith i bawb sy'n dechrau ymdrin â'r enwair, cafodd un o ddisgyblion 2000 fodd i fyw rhyw ychydig wythnosau yn ôl drwy ddal eog 7 pwys o'r Seiont.

Y Fantolen Ariannol

Cawn glywed gan y Trysorydd sut mae'r clwy traed a'r genau wedi effeithio ar ein sefyllfa ariannol, a cynnig y pwyllgor gwaith ar sut i wobrwyo teilyngdod i'r clwb. Mae'r rhai sy'n ymuno fel y mynnont yn ei

gwneud yn annheg i'r mwyafrif ffyddlon. Cawn glywed rhagor am hyn ar y noson.

I Gloi

Fel mae ein portffolio o bysgota, tir, adeiladau ac eiddo eraill yn tystio ein bod ymysg un o'r cymdeithasau mwyaf llewyrchus yn y wlad. Rwy'n falch o gael dweud ei bod yn anrhydedd cael bod yn rhan o'r datblygiad yma am lawer iawn o flynyddoedd, yn enwedig am yr 20 mlynedd olaf fel Cadeirydd. Fel dilyniant naturiol mae'n angenrheidiol ar adegau i drosglwyddo'r awennau, ac felly rwy'n teimlo fod yn amser wedi dod i mi roi cam i'r ochr a dymuno i'm dilynnydd yr un llwyddiant a phleser a gefais i yn y swydd. Byddaf, wrth gwrs, yn cario 'mlaen fel un o'r Cyfarwyddwyr.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i Mr Huw Hughes a'm cyd-swyddogion am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

Ar hyn dymunaf ar ran y Pwyllgor a'r Swyddogion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a'ch teuluoedd, ac hefyd wrth gwrs lein dynn am y tymor nesaf.

M. M. Jones
Cadeirydd



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR**. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan Petrol neu Disel Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed e e e ichwi ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



Dymuna Ken, Roberta, Dafydd a staff

Y TARW (Bull Inn) DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Deiniolen, Ffôn: (01286) 870484

Bysus o 12 i 53 sedd Teithiau Lleol a Thramor
Gwaith Contract

Trelerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth pawb yng

TICEDI

LOTERI!



Ar agor 7a.m - 9p.m. bob diwrnod
Petrol . Diesel . Nwy Calor. Glo . Wyau
Cylchgronnau . Papurau Newydd . Cardiau

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DIOLCH. Dymuna Mrs E. M. Williams, Tegfryn, Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau, staff Ward Aran Ysbyty Gwynedd a staff Ward Gwyrfai, Ysbyty Bryn Seiont am y gofal a'r caredigrwydd tuag ati tra'n aros yno. Hefyd diolch i Dr. Oddy.

DYMUNA Mrs Helen Lewis, 4 Y Bwthyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdegiion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau a dderbyniodd ar ôl iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r staff ar Ward Conwy am eu gofal.

YSGOL FEITHRIN. Croesawyd 9 o blant newydd i'r Ysgol Feithrin ym mis Medi ac maent i gyd wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb a gefnogodd y Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Ebeneser yn ôl ym mis Gorffennaf. Bu'n llwyddiant mawr a hyderwn fod pawb wedi mwynhau. Diolchwn hefyd am y gefnogaeth dda i'r Noson Tân Gwyllt yn yr Ysgol Feithrin.

Mi fydd Siôn Corn o amgylch y pentref ar nos Sul, 9 Rhagfyr o tua 5.30 ymlaen.

Cynhelir Disgo Nadolig i blant yr Ysgol Feithrin ac Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Fercher, 19 Rhagfyr yn yr ysgol. Mynediad £1 yn cynnwys diod a chreision.

Cynhelir Parti Nadolig i blant yr Ysgol Feithrin ar ddydd Mawrth,

11 Rhagfyr am 1.30 o'r gloch. Bydd y plant yn rhoi cyngerdd ac yna yn cael te parti ac anrheg gan Siôn Corn. Mynediad £1 i oedolion.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf.

PÊL-DROED IEUENCTID. Ar nos Wener, 2 Tachwedd 2001 cynhaliwyd noson wobrwyo i'r timau o dan 11 ac o dan 9 am y flwyddyn 2000/2001.

Cafodd pob aelod o'r ddau dîm dlws am chwarae. Cafodd aelodau'r tîm o dan 11 dlws ychwanegol gan Richard Wallis am eu bod wedi ennill pob gêm heblaw un.

Enillodd y ddau dîm dlws Eco'r Wyddfa gan orffen y flwyddyn ar nodyn uchel.

Enillwyr y prif dlysau oedd:
Dan 11: Chwaraewr y Flwyddyn: Liam Willingham; Sgoriwr uchaf: Jonathan Cyster; Chwaraewr wedi gwella fwyaf: Endaf Jones; Persony clwb: Richard Wallis Junior.

Dan 9: Chwaraewr y flwyddyn: Iwan Trefor Price; Sgoriwr uchaf: Iwan Vaughan Owen; Chwaraewr wedi gwella fwyaf: Gwydion Efans; Person y clwb: Tomos Williams.

(parhad ar dudalen 9)



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth
**BILL, LIZ a FIONA
SWYDDFA'R
POST
DEINIOLEN**

Ffôn: Llanberis 870283
GROSER TRWYDDEDIG



ASIAN LOTERI CENEDLAETHOL

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Jos, Donna
a staff y

**WELLINGTON
INN
Deiniolen**

Ffôn (01286) 870227



**CWRW BLASUS
CHWERW AR EI ORAU**



CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD

oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

**Bar
Swper
Arfonia**

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048



Deiniolen (parhad o dud 8)

Dymuna'r Pwyllgor a rheolwr y timau ddiolch i'r plant am eu gwaith caled ac am eu hymrwymiad yn ystod y tymor diwethaf.

Y SEINDORF. Enillwyr raffl fawr y Seindorf Arian oedd 1. Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont; 2. Marian Wyn, d/o 3 Bro Deiniol, Deiniolen; 3. Edna Thomas, Caernarfon. 4. Rena, Canolfan Dydd Deiniol, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Sarah Catherine Lewis (Anti Sallie, 5 Bro Deiniol) ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad am yr ymweliadau, y galwadau ffôn, y llu cardiau a'r rhoddion ariannol hael


a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl. Hoffent ddiolch i'r Parch John Pritchard, y Parch Trefor Lewis a'r Parch Catrin Roberts, Mrs M. C. Griffith a Mr Eifion Williams am y gwasanaeth yng Nghapel Cefnywaun. Mae eu diolch hefyd i'r Meddygon Teulu a chriw'r Ambiwllans am eu gwasanaeth ac yn enwedig i Dylan Griffith, Tros y Waen, yr Ymgymwrwr, am drefniadau trylwyr a diffuant.

Hefyd, dymuna Gwyndaf ac Ann ddiolch o galon i bawb a fu mor ffeind a chymwynasgar tuag at Anti Sallie ac am bob cymorth a gawsant eu dau yn dilyn ei marwolaeth.

Daeth £250 i law er cof am Anti Sallie tuag at Gronfa Offer Meddygfa, Deiniolen.

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto

Mymryn o Gochni



Y Pabi Coch? 'Rhaid cyfaddef,' ebe'r astudiwr blodau, 'ei fod yn rhyfeddol o hardd.' Daw'r dyfyniad o Lyfr Blodau R. E. Vaughan-Roberts, ble y cyfeirir at y blodyn coch deniadol yr olwg ac un sydd ar ei orau yn ystod misoedd yr haf pan y tyf ar fonciau ar ymylon lonydd, ran fynychaf ar dir digon diffaith. Perthyn y blodyn dan sylw i deulu mawr y Pabi.

Nid cyfaill yr amaethwr ydoedd y Pabi Coch ar un amser. Ystyrid ef yn chwynyn ac yn blanhigyn y dylid cael gwared ohono. Bryd hynny tyfid yd, a chas gan y tyfwr yd oedd gweld y blodyn yn tyfu ynghanol y cnwd. Gydag amser datblygwyd hadau yd oedd yn medru gwrthsefyll unrhyw gystadl-euaeth oddi wrth blanhigion y Pabi Coch mewn caeau.

'Deil ei gorsen fain,' meddai R. E. Vaughan-Roberts (ac yn y flwyddyn 1952 y dywedai hynny) 'i dyfu hyd nes cyrraedd brig yr yd. Ceidw'r blew breision a'i gorchuddia bryfed rhag ei ddringo a'r sudd tew, cydiog o'i fewn yn profi'n angau i unrhyw drychfil a'i niweidia. Gwelais forgrug wedi eu hanner claddu mewn tolchennau ohono.'

Ond fel arall y gwclais i hi! A chystal imi ddangos tystiolaeth gredadwy a dibynadwy. Dyma

brofiad a ddaeth i'm rhan yr haf diwethaf 'ma, a minnau'n sefyll ar erchwyn cae yd mewn gwlad estron. Rhyngof a'r tywysennau yd roedd gwrych ac ynghanol y tyfiant gwrychol roedd tamaid o gochni - ie, nifer o babi cochion yn tyfu. Y noson cynt bu'n swmpian bwrw glaw chwedl pobol dda 'Stiniog, (ac mi ddylent hwy wybod beth yw glaw!) Oddi mewn i un blodyn yn y gwrych, cysgodai malwen ag iddi liwiau melyn, gwyn a du.

Gyda llaw rhai enwau eraill ar y Pabi Coch yw Blodyn y Gwig, Boch Goch, Llon Llafar a Llygad y Bwgan. Gynt fe erlidid y Pabi o'r caeau yd. Ac felly y bu hi'n hanes y falwen, ran hynny. Nid ei chyfaill hi yw'r garddwr tra diwyd. Y falwen a'r Pabi Coch. Cysgodi ym mhetalau'r blodyn a wnaeth y falwoden, a hynny ar gwr y cae yd. Nid oedd iaith o bwys iddi. Gwarchod ei hunan a wnaeth. Chwilio am gysgod ac fe'i cafodd ymhlith mymryn o gochni hardd.


Gwahanol iawn fydd hi ym mynd nifer o fodau dynol eleni. Y Nadolig hwn - tymor ewyllys da a chymwynasgarwch a phawb yn frodyr i'w gilydd? Ond mae'n rhyfel yn rhywle o hyd. Nid hadd cael lle i gysgodi ble bo rhyfel. Serch hynny, dymunir bendithion y tymor i chwi, a blwyddyn newydd well.

Gweithgareddau'r Sefydliad Coffa, Llanrug


Ers ail agor Y Sefydliad Coffa yn Llanrug ganol mis Medi eleni, mae dcunydd helaeth o'r adeilad yn cael ei wneud gan wahanol fudiadau a chymdeithasau o fewn y pentref. Prin bod unrhyw noson yn mynd heibio nad oes golau ymlaen yn un o'r ystafelloedd, a nos Sul yw'r unig noson rydd yn yr ystafell snwcer. Ar hyn o bryd mae pedwar o gyrsiau

cyfrifiadurol yn cael eu cynnal yno, ac y mae trefniadau ar y gweill i barhau â chyrsiau o'r fath yn y flwyddyn newydd. Mae rhai cymdeithasau eisoes wedi llogi ystafelloedd hyd haf 2002!

Mae'r lluniau yn dangos nifer o'r gweithgareddau a oedd ymlaen ar un noson yn unig yno yn ystod y mis a aeth heibio.



Aelodau Cwmni RYGARUG yn ymarfer yn y neuadd.



Mae defnydd helaeth o'r ystafell snwcer bob nos o hanner awr wedi chwech hyd ddeg yr hwyr.



Myfyrwyr ar un o'r cyrsiau cyfrifiadurol sy'n cael eu cynnal gan Goleg Menai.



Cyngor Cymuned Llanrug yn gwrandao ar syniadau dau o aelodau ifanc Glwb Cwê l Cwm-y-glo yn cyflwyno'u syniadau am ardal gymunedol yn y pentref.



**CYFARCHION
NADOLIG
CWM Y GLO**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

DIOLCH. Dymuna Avril ac Eifion, Glan-y-don ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Joyce Rowe, Tan-y-bryn ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd i Mrs Enid Price, Stryd Newydd sydd yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Evelyn Roberts a'r genod, Paula a Sara, Ddôl Bach yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl, Mr Harry Roberts, yn frawychus o sydyn.

CAPEL Y TABERNACL
CLWB Y PLANT. Yng nghyfarfod Clwb y Plant bnawn Sul, 18 Tachwedd gyda chymorth Cassie a Graham bu'r plant yn ysgrifennu cardiau Nadolig i'w hanfon trwy Gymorth Cristnogol i blant bach Affganistan.

Dyma drefn yr oedfaon am y mis:
2: Clwb y Plant am 2; Parch Gwynfor Williams am 4.
9: Clwb y Plant am 2; Mr R. Coetmor Williams am 4.
16: Clwb y Plant am 2; Mr Evan Jones am 4.
23: Clwb y Plant am 2; Mrs Grace A. Williams am 4.
30: Dim Gwasanaeth.

Nos Sul: 23 Rhagfyr am 7 o'r gloch cynhelir Noson o Garolau gyda Lleisiau Lliwedd, Mari Wyn

Williams, Clwb y Plant a Band leuenctid Llanrug.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, 5 Tachwedd. Agorwyd y cyfarfod gan Mrs M. Latham gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs J. Ransom, Mrs D. Jones a Mrs S. Hughes. Darllenwyd munudau o'r pwyllgor a gafwyd ym mis Tachwedd y llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Diolchodd Mrs Latham i'r swyddogion am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Ail-ethlwyd y swyddogion ond oherwydd gwaedd y Trysorydd etholwyd Mrs Gwyneth Roberts fel Trysorydd am y flwyddyn nesaf.

Fe fydd Gwasanaeth Carolau yn cael ei gynnal nos Lun, 3 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb o Hafan Elan. Ein gŵr gwadd oedd Mr I. Franks a chafwyd adroddiad ganddo am ei waith fel newyddiadurwr. Yn gofalu am y baned roedd Mrs E. Taylor a Mrs J. Ransom a roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs K. Jones. Diolchwyd i Mr Franks ac i'r gwsteion gan Mrs M. Latham. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd Y Gras.

**Mae canlyniadau
Eisteddfod Llanrug a
Cwm y Glo ar dudalen 30**

**NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD DDA**
oddi wrth

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym menter gymunedol

CYFEILLION Y CWM
A SWYDDFA'R POST CWM Y GLO

POST: 9-12 Llun Mawrth, Iau, Gwener 9-11 Mercher.
Ar gau Sadwrn

Ffôn: 872722 Diolch am eich cefnogaeth yn 2001
Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2002

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth

MIN a RAY

SNOWDON/FRICSAN
Cwm-y-glo

Ffôn 870289

★ Cinio 'Dolig ar gael rhwng 10 - 21 Rhagfyr.
Archebwch yn fuan. £9.99 am 3 chwrs.

★ Cofiwch hefyd — bob dydd Sul Cinio Rhost
blasus 2 gwrs am £4.99.



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda oddi wrth bawb yn



**LONDON
GARAGE**
Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 9-5 Llun - Gwener
9-1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac
Atgyweirio



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda
oddi wrth bawb ym
Menter Fachwen
Diolch am eich
cefnogaeth trwy
gydol 2001
Edrychwn ymlaen at
flwyddyn arall
lwyddiannus yn 2002

AM BETROL, DEISEL
OAK OLEW AC AMRYFAL **OAK**
ANRHEGION MODURO

**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO**

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb





Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



YSGOL CWM Y GLO



Sioned Mai Jones a Ceri Ann Jones.

YSGOL GYNRADD. Eleni, gwahoddwyd pentref Cwm-y-glo i ymuno yn Eisteddfod Bentref Llanrug. Bu'r fenter yn llwyddiannus dros ben a chafodd plant Cwm fwynhad mawr yn cystadlu yno ac enill ambell wobwr hefyd. Braf iawn hefyd oedd gweld cymaint o'u rhieni a pherthnasau wedi dod i gefnogi'r plant. Llongyfarchiadau arbennig eleni i Sioned Mai Jones, Bl.3 am enill y tlws am y perfformiad llafar gorau a Ceri Anne Jones, Bl.6 am enill y tlws am y perfformiad gorau am ganu - y ddwy dan 12 oed.

Da iawn Elin Morris am enill y tlws am y perfformiad offerynnol yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Canmoliaeth fawr hefyd i Karon Williams am berfformiad ardderchog ar y piano yng nghyngerdd yr Eglwys. Nid llawer sy'n derbyn tusw o flodau am berfformiad cyhoeddus yn ddeg oed.

Llongyfarchiadau i Mrs Christine Jones, Dyffryn Cwm-y-glo; Mrs Doreen Roberts, Maes Padarn Llanberis a Mrs Rita Morris, 5 Minffordd, Brynrefail am enill y tair gwobr yng Nghlwb yr Ysgol ym mis Hydref.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel y Tabernacl gyda holl blant yr ysgol yn cymryd rhan. Roedd y Parch Gwynfor Williams a'r Parch Phillip Hughes yn bresennol. Cyflwynwyd y ffrwythau a'r llysiau i Gaban y Cwm tuag at ddefnydd y bobl yn y gymuned. Yn ystod y

gwasanaeth gwnaed casgliad o £50 ac eleni cyflwynwyd hwn i Glwb Marchogaeth i'r Anabl yn Nhreforth Bangor. Roeddem yn cefnogi ymdrech arbennig Mrs Lesley Wilson, rhiant yn yr ysgol hon, sydd bellach wedi casglu £1100. Ei dymuniad hi yw diolch i bawb gyfrannodd tua'r achos teilwng hwn.

Daeth Miss Tammi Gwynn at Fl.3 a 4 i adrodd straeon gwerin a chawsant bnawn arbennig yn ei chwmmi. Carem ddymuno'r gorau i Tammi pan fydd yn priodi yng ngwlad Awstria yn ystod gwyliau'r Nadolig.

Cafodd yr Adran Iau awr o fwynhad pur yng nghwmni Albert ac Izzie yn Ysgol Syr Hugh Owen. Cyflwynwyd pob math o elfennau gwyddonol iddynt drwy gyfrwng meim a dawns a hiwmor iach a bu'r cyfan yn hynod llwyddiannus.

Braf oedd cael croesawu Amy Lambert a Carys Jones o Ysgol Brynrefail atom fel rhan o'u cwrs Cyfathrebu ym Ml.12. Pob dymuniad da i chwi yn y dyfodol, genod.

Diolch i bawb am gefnogi ein apêl tuag at Blant Mewn Angen eleni. Cafodd y plant ddod heb eu gwisg ysgol arferol. Yna yn y prynhawn bu plant Bl.6 yn hynod brysur yn rhedeg stondinau a phaned ar gyfer y cyhoedd. Diolch o galon i Mrs Joanna Jones a Mrs Anwen Williams am baratoi y baned. Casglwyd cyfanswm anrhydeddus iawn o £130.

Bydd Cantorion Menai ynghyd â Chantorion Monteverdi yn perfformio'r Meseia nos Sadwrn, 15 Rhagfyr am 7.30 yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor. Yn ymuno â'r côr a Cherddorfa Siambr Menai bydd Gwyn Hughes Jones, Gail Pearson, Michael Chance a James Rutherford. Bydd y cyngerdd dan arweiniad Gwyn L. Williams, gyda Mai Newman ar yr harpsichord. Tocynnau yn £12, ar gael yn Awen Menai a Madam Wen (Y Borth), Siop Ena (Biwmares) a Booklands (Bangor).

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfarfod Arbennig 30 Hydref. Cadeiriwyd gan yr is-gadeirydd y Cynghorydd Richard Ll. Jones. Prif bwrpas y cyfarfod oedd i drafod ceisiadau blynyddol oddi wrth fudiadau am gymorth ariannol, a phenderfynwyd fel a ganlyn...

Ysgol Feithrin, Deiniolen - £300

Ysgol Feithrin Rhiwlas - £300
Cylch Ti a Fi, Penisarwaun - £300

Neuadd Penisarwaun - £200

Neuadd Rhiwlas - £200

Eisteddfod Bethel - £200

Eisteddfod Penisarwaun - £200

Eisteddfod Gwaun Gynfi - £200

Eco'r Wyddfa - £200

Seindorf Arian Deiniolen - £200

Llais Ogwan - £25

Rygarug - £100

Clwb Snwcer Deiniolen - £100

Merched y Wawr Deiniolen - £50

Cafwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Sir, Mr Huw P. Hughes ynglŷn â'r posibiladau o gyllid ar gyfer gwelliannau i'r gymuned, a threfnir cyfarfod cychwynnol ar 4 Rhagfyr i awgrymu ac i ystyried prosiectau perthnasol. Os oes rhywrai eisiau cyflwyno syniadau, bydd y Clerc yn barod i'w derbyn - John B. Jones, Ceris, Deiniolen, LL55 3LU.

Cyfarfod 6 Tachwedd

Cadeiriwyd gan yr is-gadeirydd, y Cynghorydd Richard Ll. Jones

Disgwylid cynrychiolydd o Gymdeithas yr Iaith ond throdd

neb i fyny. Adroddwyd bod arhosiad hir rhwng bysiau yn Neiniolen, er fod y gwasanaeth cyffredinol wedi gwella ers i Gyngor Gwynedd ei ailstrwythuro; hefyd bod y cyfarpar yng Nghae Rhos, Bethel wedi ei fandaleiddio. Penderfynwyd peidio ymaelodi â Chymdeithas y Cerddwyr. Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Sir, Mr Huw P. Hughes ynglŷn â chysgodfan bws a phenderfynwyd cefnogi ei gais am un ger Ysgol Bethel. Derbyniwyd ateb First Hydro mai Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am glirio'r sbwriel ym maes parcio Marchlyn Mawr. Cynllunio: Rhestrwyd amryw o geisiadau ers y cyfarfod diwethaf, a'r rhai a ganiatawyd gan Wynedd. Nid oedd gwrthwynebiad ond i un, sef codi tŷ ar lain o dir ger l Tai Newyddion, Penisarwaun.

Llwybrau: Cefnogwyd bwriad Cyngor Gwynedd i osod giat mochyn ym mhen isa llwybr Corlan y Bont, Clwt-y-bont. Penderfynwyd cefnogi deiseb o ardal Rhos Wian, Penisarwaun i Gyngor Gwynedd yn amlygu'r angen i ail-wynebu'r llwybr oherwydd ei gyflwr peryglus. Darllenwyd llythyr Gwynedd - maent yn monitro cyflwr y llwybr y tu cefn i Res Marian, Deiniolen.

Derbynwyd adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor o Gynhadledd Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref ac o Gyfarfod Cynghorau Cymuned Gwynedd.

Clwb Eryri

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Eryri yn y Fictoria, nos Wener, 2 Tachwedd. Yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Dei Tomos, cyfeiriwyd at waeledd Bert Parry, a oedd i fod yn siaradwr y noson, a dymunwyd adferiad buan iddo. Derbyniwyd hefyd ymddiswyddiad un o'r cyn-Lywyddion, John Emllyn Hughes a diolchwyd iddo am ei wasanaeth i'r Clwb, gan ddymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

Bu cryn drafodaeth ar sut i lenwi swydd Bardd y Clwb a phenderfynwyd arbrofi gyda threfn newydd o gael bardd gwahanol ar gyfer pob cyfarfod. Bydd Wyre Thomas yn llenwi'r gadair farddol ar gyfer y cyfarfod nesaf a dymunir yn dda iddo.

Cyflwynwyd y

gweithgareddau i Lywydd y Noson, sef Eurwyn Griffith. Yn dilyn rhybudd byr iawn, daeth Ralph Jones i'r adwy fel siaradwr y noson a chyflwynwyd ef yn bwrpasol iawn gan Lywydd y Noson. Caed sgwrs ddiddorol iawn gan Ralph gan gynnwys sleidiau ar ei daith i Sbaen a Phortiwgal yn dilyn ffordd y pererinion i Santiago de Compostela. Eglurwyd cefndir y bererindod ac arwyddocad y daith i Santiago yng ngogledd Sbaen, sy'n dilyn Jeriwsalem a Rhufain fel man cysegredig i'r Cristion.

Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr diolchwyd i'r siaradwr gan Cledwyn Pritchard Jones. Cyhoeddodd y llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, 7 Rhagfyr. Y siaradwr fydd Evan Parry gyda Edgar Parry yn llywyddu.



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Rhian a Darren

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian a Darren ar achlysur eu priodas yn Mauritius ar 17 Hydref.

EGLWYS ST HELEN.

YSGOL SUL. Bore Sul, 25 Tachwedd aeth llond bws mini o aelodau'r Ysgol Sul i Eglwys St Dyfnog, Llanrhaeadr, Dinbych i weld ffenestr liw gyda llun Coeden Jesse arni, sef thema'r Ysgol Sul. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

DISGO. Cynhaliwyd Disgo i'r plant yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, 30 Tachwedd. Mwynhawyd y noson gan bawb a diolch i Llion Jones o Gwm-y-glo, y DJ, ac Eric Jones.

GWASANAETHAU'R NADOLIG. Dydd Sul, 23 Rhagfyr am 2 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant a Naw Llith a Charol.

Fe gyhoeddir manylion pellach am ragor o'r gwasanaethau yn y rhifyn nesaf.

YSGOL GYMUNED. Ar ôl gwyliau Diolchgarwch croesawyd tair darpar athrawes o'r Coleg ym Mangor i'r ysgol. Gobeithiwn yn fawr y bydd Gwennan, Ceri a Claire yn elwa o'u hymarfer dysgu gyda ni, ac y bydd y tair yn llwyddo i gael swydd dysgu ar gyfer mis Medi nesaf.

Eleni, rhoddwyd y sialens i blant yr ysgol i anfon 50 o focsyr anrhegion fel rhan o gynllun Operation Christmas Child. Fe wnaed yn well na hynny, gyda 65 o focsyr wedi eu llenwi ar y cyfrif olaf. Da iawn chi bawb a diolch mawr hefyd i gyfeillion yr ysgol a baratodd focs.

Ar 29 Tachwedd fe gynhelir ffair lyfrau Cymraeg a Saesneg yn y neuadd gymuned. Croeso cynnes i bawb. I gloi'r noson gobeithir cynnal ocsiwn o offer cyfrifiadurol. Ar gyfer y Nadolig cynhelir gwasanaeth i ddathlu'r wyl. Fe fydd rhan i bob un o blant yr ysgol. Unwaith eto, mae croeso i chi ymuno â ni

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn sâl. Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Gwen Roberts, Weirglodd Goch, wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Brysia wella, Gwen. **PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: 1. Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul; 2. Alwyn Williams, Pen-y-groes; 3. Brian Jones, Perthi.

Trefnir Noson Disgo ar 14 Rhagfyr i gychwyn am 5.15 hyd 6.45 ac yna Noson Wasael i ddilyn, yn cynnwys pwnsh a mins pei ynghyd â chanu'r hen garolau. Croeso cynnes i bawb i'r Neuadd Gymuned.

YSGOL SUL. Gobeithir trefnu Sul Teuluol cyn y Nadolig yng nghwmni Myrddin Jones a chyfraniadau gan blant ac athrawon yr Ysgol Sul.

EPITAFF. Braff oedd gweld a gwrando ar Ynyr ac Eurig, aelodau o'r grwp Epitaff ar y rhaglen Croma, nos Wener, 11 Tachwedd. Llongyfarchiadau hogia a phob dymuniad da i'r dyfodol.

DYMUNIADAU NADOLIG. Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion.

Dymuna Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion.

EISTEDDFOD BENTREF. Braff yw cael adrodd bod yr Eisteddfod ar ei newydd wedd wedi bod yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn, 3 Tachwedd. Roedd nifer fawr o blant wedi troi i mewn i gystadlu a braff oedd gweld y neuadd yn llawn. Wedi egwyl a lluniaeth tro y plant hynaf a'r bobl ifanc oedd cystadlu. Unwaith eto cafwyd cefnogaeth frwd gyda'r neuadd yn parhau i fod yn llawn ar ddiwedd y noson.

Y beirniaid oedd Mr Edward Morus Jones (Cerdd), Tammi Gwynn (Llefaru), Annwen Hughes (Llên), Lyn Davies (Coginio a Gwaith Llaw) ac Arnold Jones (Celf).

Y cyfeilyddion oedd Dewi Hughes a Mair Hughes. Arweinyddion y prynhawn oedd Liz Jones a Phyllis Ellis, ac arweinydd yr hwyr oedd Eifion Harding. Bu Anti Jean ac Elin, Lois, Sioned a Catrin yn cynorthwyo ar y llwyfan ac yn dosbarthu'r gwobrau yn ystod y prynhawn.

Diolch i bawb am gyfrannu tuag at y llwyddiant; staff yr ysgol, aelodau y pwyllgor ac yn enwedig pawb a gymerodd ran neu a drodd i mewn i'r neuadd i fwynhau a chefnogi talent lleol. Dyma'r canlyniadau:

Cerdd

Meithrin ac iau: 1. Ceinwen. Bl. Derbyn: 1. Lowri; 2. Cai, Nia, Ceri, Cerin. Bl.1,2: 1. Sophie; 2. Eiliw; 3. Catrin. Parti Bl.D,1 a 2: Parti 'Pawb'. Bl.3,4: 1. Anest; 2. Kieran a Sion Dafydd; 3. Ffion a Leanne. Parti Bl.3,4,5,6: Parti Dewi. Bl.5,6: 1. Bethan; 2. Rebecca; 3. Rhys. **Cerdd Dant Cynradd:** 1. Sion Dafydd; 2. Anest; 3. Bethan. **Piano:** 1., Caryl; 2. Awen a Llyr. **Unrhyw ddawns unigol:** 1. Anest


Eisteddfod Penisarwaun



Parti Canu Cynradd.



Cwpan er cof am Mrs Eluned Porter, yn cael ei chyflwyno gan Pat Jones i Sophie Hughes.



Sion Dafydd, enillydd amryw o fedalau.



Cwpan Eisteddfod Bentref Penisarwaun i'r Prif Lenor, Sioned Alaw Williams.



Tarian Prif Lenor Cynradd i Rhian Elin George.

Bryn. Bl.7,8,9: 1. Lois Jones, 2. Sioned Alaw. **Unrhyw ddawns mewn grwp:** Grwp Sara. Bl.10-13: 1. Cenin. **Piano Uwchradd:** 1. Lois; 2. Anest. **Parti Deulais:** Parti Brynrefail. **Unawd offeryn:** 1. Jenny Hamer. **Deuawd Agored:** 1. Anest a Sion Dafydd; 2. Sophie a Glesni. **Grwp Cân Ysgafn Dros 18 oed:** Parti'r Pwyllgor. **Parti Canu Oedolion:** Parti'r Pwyllgor.

Adrodd

Oed Meithrin a iau: 1. Ceinwen. Bl. Derbyn: 1. Lowri; 2. Ashley; 3. Nia. Bl.1,2: 1. Catrin; 2. Sophie; 3. Eiliw. Bl.3,4: Cydradd 1. Sion ac Anna. Bl.5,6: 1. Rhys, 2. Caryl; 3. Andrew. **Parti Cynradd:** Parti Elen. Bl.7,8,9: 1. David Kyle. **Sgets Cynradd:** 1. Grwp Bethan; 2. Grwp Anna. **Parti Oedolion:** Parti'r Pwyllgor.

Llên

Rhyddiaith Bl.D: 1. Nia; 2. Cerin; 3. Cai a Lowri. Bl.1: 1. Sophie Hughes; 2. Claire; 3. Harry. Bl.2: 1. Katie; 2. Catrin; 3. Elen. Bl.3,4: 1. Lois; 2. Anest Bryn; 3. Anna. Bl.5,6: 1. Rhian; 2. Caryl; 3.

Gethin. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Cadi Roberts.

Coginio

Bl.2 a iau: 1. Nia; 2. Cai; 3. Ashley. Bl.3,4,5,6: 1. Taliesyn; 2. Llyr Hughes a Rebecca Snowdon; 3. Bethan. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Llyr Roberts a Sara Woodcock; 3. Cadi Roberts. **Oedolion:** 1. Janice; 2. Carys Eddy.

Gwaith Llaw

Oed Meithrin a iau: 1. Sophie; 2. Caitlin; 3. William a Hannah Tomos. Bl.D: 1. Nia; 2. Robin, Tomos, Cai; 3. Daniel Bradbury. Bl.1,2: 1. Sophie a Glesni; 2. Catrin; 3. Claire. Bl.3,4: 1. Sion Dafydd; 2. Megan Glyn ac Anna; 3. Leanne. Bl.5,6: 1. Gethin; 2. Caryl a Dion; 3. Awen a Rebecca. Bl.7,8,9: 1. Catrin Elin; 2. Sioned Alaw; 3. Llyr Roberts. **Oedolion:** 1. Phyllis Ellis; 2. Helen Williams a 'Pwtan'; 3. Pat Jones a 'Lara'.

Arlunio


Oed Meithrin a iau: 1. Iori; 2. Ceinwen; 3. Jordan. Bl. Bl.D: 1.

(parhad ar dudalen 21)

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Mrs Helen Sutherland – a ymddedolodd yn ddiweddar o'r ysgol – yn mwynhau ei pharti

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 14 Tachwedd aeth y gangen i Antur Waunfawr. Cafwyd croeso cynnes iawn gan staff yr Antur a mwynhawyd sgwrs ddifyr gan Gwynn Davies cyn mynd ymlaen i fwynhau 'te Nadoligaidd' yn y caffi ac i wneud dipyn o siopa Dolig yn y siop. Diolchwyd i Gwynn Davies ac i Carol a'r staff am y te bendigedig gan y Llywydd, Mair Read.

Dymunwyd gwellhad buan i Siôn, wŷr Mary Evans ar ôl ei lawdriniaeth a chydymdeimlwyd ag Eirlys Williams a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Y mis nesaf byddwn yn gwledda yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd. Enwau a thâl am y pryd i Mair, Mary neu Rhian erbyn 5 Rhagfyr fan bellaf os gwelwch yn dda.

Nos Sul, 16 Rhagfyr cynhelir gwasanaeth 'Taith Nadolig' yn Capel Cysegr am 6 o'r gloch. Bydd elw'r noson er budd Tŷ Gobaith yng Nghymru'. Os oes rhywun yn dymuno prynu tocyn (£1) fe'i gwerthir gan yr aelodau. Y NEUADD GOFFA. Clwb 200.

Enillwyr am fis Medi: £50 (003) Ann Stuhlfelder, Y Ddôl; £25 (17) Pat Hughes, Staed Eryri; £10 (116): Glyn Roberts, Cefn y Gwynt.

Hydref: £50 (163): Ffion Jones, Bryn Tirion; £25 (001): Nan

Rowlands, Y Ddôl; £10 (99): Myfanwy Harper, Llandygai.

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o Ofalwr y Neuadd i ddechrau yn mis Ionawr. Gellir ystyried rhannu'r swydd, un i lanhau ac un i agor a chau. Cysylltwch â Nan Owen, Berwyn (670763) am fanylion pellach.

YR YSGOL. Cynhelir Ffair Nadolig yr Ysgol am 6.30 nos Wener, 7 Rhagfyr. Bydd nifer o stondinau ac ymweliad gan Siôn Corn ei hun. Croeso cynnes i bawb.

Mae'r plant wrthi'n brysur yn ymarfer Sioeau Nadolig. Cynhelir Sioe'r Babanod ar nos Fawrth 11 a nos Fercher 12 Rhagfyr. Cynhelir Sioe'r Nadolig yr Adran lau nos Lun, 17 a nos Fawrth 18 Rhagfyr. Bydd tocynnau ar werth yn yr ysgol wythnos gyntaf mis Rhagfyr.

Bnawn Mercher, 14 Tachwedd bu blynnyddoedd 5 a 6 mewn Perfformiad Gwyddonol gan *Gwmni Floating Point*. Fore Mawrth, 20 Tachwedd bu'r Adran lau i gyd yn gweld y ffilm 'Harry Potter' yn y Plaza ym Mangor. Roedd pawb wedi cael boddhad mawr o'r ddau ymweliad.

CEFNOGI'R HOGIA. Mae'r pentref yn ymfalchïo yn nechrau llwyddiannus i'r tymor gan y clwb pêl-droed. Erbyn hyn maent yn drydydd yn y Cynghrair ac wedi cyrraedd trydedd rownd – yr 16 olaf – Cwpan lau y Gogledd. Y mae clod yn deilwng i'r criw gweithgar tu ôl i'r llenni sy'n gosod sylfaen gref i ddatblygiad y clwb.

Rhai misoedd yn ôl trefnodd y Pwyllgor noson o adloniant i godi arian at y clwb ac roedd mor llwyddiannus fel y cynhelir noson debyg yn y Bedol ar nos lau, 6 Rhagfyr i ddechrau am 8.30pm. Bydd yr adloniant ar ffurf y rhaglen deledu 'Stars in Their Eyes' a bydd saith datganiad i'n diddanu. Mae si ar led fod cryn dalent yn bodoli ymysg y chwaraewyr a'r pwyllgor.

Yn ystod y noson hefyd bydd ocsiwn yn cael ei chynnal ac mae llawer o dimau pêl-droed – yn gynghreiriol a chenedlaethol – wedi cyfrannu eitemau. Mae ocsiwniar gwadd ar gael a gobeithio y bydd ganddo lais digon uchel i gadw trefn! Yn ystod

y noson hefyd bydd ymddangosiad cyntaf grŵp diweddaraf ardal Bethel – y B Sharps! Noson hwyliog felly a chyfle i gefnogi ymdrech y pwyllgor i ddatblygu'r gêm a chyfleusterau i'r fro. Pris mynediad yw £1, fydd yn cynnwys tocyn raffl.

DIOLCH. Wedi 26 mlynedd o wasanaeth i'r ardal mae Gwilym a Meirwen Jones wedi ymdeol o gadw post Bethel. Gwelsant

newidiadau mawr dros y cyfnod, o fyd y beiro i'r dechnoleg gyfrifiadurol. Diolchwn i'r ddau, fel ardal, am eu gwasanaeth. Dim mwy o godi'n fore i drefnu'r papurau Gwill!

Tu ôl i'r cownter bellach fe fydd Dylan Hughes, Crawiau – yntau yn dechrau cyfnod newydd o wasanaeth yn ei bentref genedigol wedi cyfnod maith tu ôl i gownter y Co-op yn Llanrug. Dymunwn yn dda iddo yntau hefyd.



Gwilym a Meirwen Jones ar eu diwrnod olaf yn Swyddfa Bost Bethel

FANDALIAETH. Derbyniodd clerig y Cyngor Cymuned y llythyr canlynol oddi wrth Swyddog Rhanbarth Arfon. Trist meddwl fod carfan fechan yn mynnu difrodi mewn pentref lle mae canran uchel o bobl ifanc yn byw, a lle mae sawl un yn rhoi o'u hamser i gefnogi a darparu gweithgareddau i'r ieuencid.

Annwyl Syr
Cae Chwarae Bro Rhos, Bethel
Fy mwriad i gyda'r llythyr yma yw eich hysbysu am weithredoedd fandaliaid yn erbyn cyfarpar chwarae i blant ar y safle a nodais uchod.

Yn ystod y dyddiau diwethaf mae rhan helaeth o ffens y safle wedi ei ddfirodi; mae sedd crud ar y sgilen i blant iau wedi ei falurio ac mae bariau dur i atal seddau y siglen i blant hŷn rhag cael eu clymu tros y croesbren, wedi eu plygu fel nad ydynt mwyach o werth. Gyda golwg ar y gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'r safle yma, ymddengys fod y lefel o falurio ar raddfa uchel. Gan fod yr adnoddau ariannol dynodedig er darparu gwasanaeth cynnal a

chadw o fewn ardal Arfon dan bwysau, gorau oll i mi ddwyn eich sylw at y ffaith na allaf barhau, ysywaeth, i gyfeirio gwariant dibendraw at gae Bro Rhos. Cydnabyddaf i chwi felly fod tebygolrwydd y gall difrod pellach arwain at benderfyniad i symud y seddau a'r cadwyni oddi wrth fframiau'r siglenni. Yn ddi-os, byddai mesur o'r fath yn un eithafol ond mae'r adnoddau ariannol yn brin iawn a gyda bron i bedwar ugain o safleoedd â chyfarpar chwarae yn Arfon rhaid ceisio sicrhau fod defnydd o'r arian yn gost effeithiol.

Tra cydnabyddaf, yn unionsyth, fod atal gweithredoedd fandaliaid yn bell iawn o fod yn hawdd a thu draw i allu y rhan fwyaf ohonom, tybed a oes unrhyw gamrau ymarferol y gellid ei gynnig gennych i ddwyn dylanwad ar y drwg-weithredwyr neu y rhai sydd â chyfrifoldeb amdanynt? Buaswn yn ddiolchgar iawn am eich cydweithrediad.

Yn gywir,
Swyddog Rhanbarth Arfon
Bwrdeistrefol

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)


Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgyngorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



Y difrod a achoswyd i'r cae chwarae yn ddiweddar gan fandaliaid.

Cystadleuaeth Dawnsio Disgo: Arweinydd y noson oedd Gwen Lasarus a'r beirniaid oedd Nia Howells, Bethesda.

Dawnsio Unigol: BI 7-13: 1. Kelly Kavanagh; 2. Ceri Wyn Griffiths; 3. Sasha Williams. Dawnsio Pâr: BI 3 a iau: Cic Cicio (Elin a Branwen); 2. Ildid a Lois. BI 4,5a6: 1. Danielle a Hana Gwyn; 2. Zoe a Kirsty; 3. Ffion a Lowri; 4. Marged a Kirsty. BI.7-13: 1. Kelly a Sasha. Dawnsio: BI.6 a iau: 1. Grwp Zoe; 2. Y Sêr; 3. Five Tough Styff; 4. Blemig. Enillydd Tlws Cefn Ffrwd: Kelly Kavanagh. Tlws bach i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Rhys a Sian Harris.

Beirniaid Cerdd, Llefaru a Llên-Dr Gwyn a Mrs Alwena Lewis, Caernarfon. Cyfeilyddion: Glenys Griffiths, Deilwen Hughes a Manon Gwynedd. Arweinyddion: Anita Owen, Gwenan Elis a Iorwerth Williams. Canlyniadau CANU.

Meithrin: 1. Ela a Nia; 2. Gwion a Rhodri; 3. Cai, Owain a Rhydian. BI.0: 1. William a Richard; 2. Mari Tachwedd. Catrin a Ifan; 3. Sion Emlyn a Daniel. BI.1a2: 1. Lowri Ann; 2. Guto; 3. Sion, Laura, Glesni, Lowri ac Ildid. BI.3a4: 1. Gruffudd; 2. Gethin ac Elena; 3. Gerallt, Llio, Angharad a Catrin. BI.5a6: 1. Enfys; 2. Robin; 3. Danielle, Marged ac Ela. BI.7,8,9: 1. Ceri; 2. Sion. BI.10-13: 1. Huw; 2. Lois; 3. Ffion Williams.

Cerdd Dant BI.1-6: 1. Enfys; 2. Catrin; 3. Marged Rhys, Gethin a Robin. BI.7-13: 1. Ffion Williams. Alaw Werin BI.1-6: 1. Enfys; 2. Marged Rhys. BI.7-13: 1. Lois; 2. Ceri; 3. Ffion Williams.

Unawd Piano BI.1,2,3: 1. Manon; 2. Gethin; 3. Bronwen ac Elen. BI.4,5,6: 1. Sion; 2. Iona; 3. Ela a Dyfan. BI.7,8,9: 1. Heulwen; 2. Manon. BI.10-13: 1. Huw. Offeryn heblaw piano. BI.1-6: 1. Sion; 2. Gwilym; 3. Manon, Cai ac Ela. BI.7-13: 1. Rhys; 2. Dewi; 3. Ffion Williams a Heulwen.

Parti Canu BI.1,2,3: 1. Parti Eira Gwyn; 2. Parti Sion Corn. Parti Offerynol BI.1-13: 1. Saim; 2. Y Seintiau. Parti Canu 4,5 a 6: 1. Parti Hapus; 2. Parti heb enw. BI.7-13: 1. Saith Ladi Ddewr. Parti Cerdd Dant BI.1-6: 1. Parti Mwnci; 2. Parti Elifant. Meimio i Record Gymraeg. 1. Ladi's ladi-da (Cwlwm).

YMGOM.

BI.1-6: 1. Gerallt a Gruffydd. BI.7-13: 1. Ffion Owen a Lois; 2. Dewi, Aled a Sion.

SIARAD CYHOEDDUS. BI.7-13: 1. Ffion Owen; 2. Huw.

LLEFARU

Meithrin. 1. Elan a Gwion; 2. Nia; 3., Lowri, Mathew a Rhodri. BI.0: 1. Sion Wyn; 2. Sion Emlyn a Richard; 3. Caio a William. BI.1a2: 1. Iolo; 2. Guto; 3. Ildid. BI.3,4: 1. Gethin; 2. Elin; 3. Gerallt. BI.5,6: 1. Cai; 2. Sion; 3. Aled ac Enfys. BI.7,8,9: 1. Ceri; 2. Aled. BI.10-13: 1. Huw; 2. Lois a Ffion Owen.

Parti Llefaru: BI.1,2,3: 1. Parti Tom; 2. Parti Aaron. BI.4,5,6: 1. Parti Cai; 2. Parti Greta.

LLÊN

Dosbarth Derbyn. 1. Catrin Haf; 2. Mari, 3. Sion Emlyn. BI.1: 1. Dylan; 2. James; 3. Lois. BI.2: 1. Ffion; 2. Gwenno; 3. Lowri Ann.

Eisteddfod Bentref Bethel

BI.3: 1. Manon Elwyn; 2. Gerallt Bryn; 3. Adriana Morgan. BI.4: 1. Mared; 2. Gwilym Rhys; 3. Dyfan Coles ac Angharad Price. BI.5: 1. Sian; 2. Robin; 3. Enfys. BI.6: 1. Iobna; 2. Marged Rhys; 3. Ffion Medi. BI.7-9: 21. Elan Rhys; 2. Aled Gwilym; 3. Manon Williams. BI.10-13: Nora Ostler; 2. Ffion Williams; 3. How Foulkes.

Mrs I. Butler, Tan-y-cae enillodd am ei brawddegau o'r gair 'Geiriadur'.

GWAITH LLAW

2D Cylch Meithrin: 1. Elin; 2. Gwion; 3. Mathew. Dosbarth Derbyn: 1. Elan; 2. Erin; 3. Gwenllian ac Elliw. BI.0: 1. Glesni; 2. Natalie; 3. Mari. BI.1: 1. Guto; 2., Beth a John; 3. Ffion. BI.2: 1. Ildid ac Emma; 2. Claudia a Ffion; 3. Laura. BI.3: 1. Bronwen ac Arron. 2. Georgia; 3. Einir. BI.4: 1. Catrin; 2. Timothy a Greta; 3. Emma. BI.5: 1. Sion Elwyn; 2. Danielle; 3. Ella. BI.6: 1. Christy; 2. Marged; 3. Elan. BI 7-9:1. Nia Glyn; 2. Elan Rhys; 3. Aled Gwilym a Nia Glyn. BI.10-13: 1. Nora Ostler; 2. Gwen Rowlands; 3. Nora Ostler.

COLLAGE. BI 0,1,2: 1. Claudia. BI.3,4: 1. Llio ac Angharad; 2. Mollie; 3. Carwyn. BI.5,6: 1. Elan; 2. Sian; 3. Christy. BI.7,9: 1. Elan Rhys; 2. Dewi; 3. Aled Gwilym. BI.10-13: 1. Gwen Rowlands; 2. Huw Foulkes; 3. Gwen Rowlands.

FFOTOGRAFFIAETH

BI1 ac iau: 1. Ffion; 2. Ffion. BI.3,4: 1. Gwilym Rhys; 2. Gerallt Bryn; 3. Bronwen Price. BI.5,6: 1. Aled. BI.7-9: 1. Aled Gwilym a Nia Glyn. 2. Elan Rhys. BI.10-13: 1. Ffion Williams; 2. Gwen Rowlands; 3. Huw Foulkes. 3D: BI.1 a iau: 1. Bronwen Price.

TECSTILIAU. BI.3-6: 1. Gwilym Rhys a Hannah Gwyn; 2. Aaron Gwyn a Hannah Gwyn; 3. Arron Hughes. BI.7-13: 1. Elan Rhys a Ffion Williams; 2. Manon Williams a Huw Foulkes.

GRAFFEG CYFRIFIADUROL. BI.2 a iau: 1. Guto Griffiths. BI.3-6: 1. Gethin Griffiths; 2. Dyfan Coles; 3. Gerallt Bryn. BI.7-13: 1. Aled Gwilym; 2. Aled Gwilym; 3. Aled Gwilym.

LOGO I EISTEDDFOD 2002:

1. Aled Griffiths; 2. Nia Glyn a Kelly Kavanagh; 3. Marged Rhys a Robin Llwyd.

Prif Lenorion yr Eisteddfod.

Cynradd (Tlws y Gymdeithas Lenyddol): tlws i'w gadw gan Maldwyn John a Manon Gwynedd: Iona Speake Uwchradd (Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen): tlws i'w gadw gan Gareth a Manon Dauncey Griffiths: Nora Ostler.

Enillwyr y Tlwsau

Cynradd: Cerdd (Cwpan Boss): tlws i'w gadw gan Elwyn a Deilwen Hughes: Enfys Roberts. Llefaru (Cwpan Arian): tlws i'w gadw gan Gwilym ac Eirlys Williams: Cai Jones. Celf: tlws i'w gadw gan Wil a Nora Parry: Catrin Jones. Offeryn gan gynnwys piano (Tlws Coffa W.G. Ellis): tlws i'w gadw gan Alun a Sheila Foulkes: Sion Elwyn Hughes.

Uwchradd

Cerdd (Cwpan Coffa Mrs Joan Foulkes): tlws i'w gadw er cof am Dafydd Williams, Llanddwyn gan

Williams); tlws i'w gadw gan Alun a Sheila Foulkes: Rhys Wyn Hughes. Celf: tlws i'w gadw gan Gareth a Rhian Hughes: Nora Ostler. Siarad Cyhoeddus (Cwpan Coffa Sian Robinson): tlws i'w gadw gan Menna Dauncev Williams: Ffion Owen.

Margaret a Philip Williams: Lois Wyn Hughes. Llefaru (Cwpan Konica): tlws i'w gadw gan Emyr ac Anita Owen: Huw Foulkes. Offeryn (Cwpan Coffa John M



Gorsedd Eisteddfod Bethel yn amgylchynu Nora Ostler (Prif Lenor Uwchradd) a Iona Speke (Prif Lenor Gynradd).



O'r chwith i'r dde: Rhys Hughes (Tlws Offerynol Uwchradd), Lois Hughes (Tlws Lleisiol Uwchradd), Ffion Owen (Tlws Siarad Cyhoeddus a Huw Foulkes (Tlws Llefaru Uwchradd).



Enfys Roberts (Tlws Lleisiol Cynradd) a Cai Jones (Tlws Llefaru Cynradd).



Dau arwydd o nerfuswydd ymysg cystadleuwyr yr Eisteddfod.

Gwasanaeth y Cofio ym Methel



Plant yr ysgol gynradd a gymerodd ran yng Ngwasanaeth Sul y Cofio ym Methel yng nghwmni Mr Cledwyn Williams.

Sefydliad Prydeinig y Galon (Cangen Caernarfon a'r Cylch)

Cynhaliwyd y Ffair Hydref flynyddol yn ddiweddar yng Ngwesty'r Celt, gyda chefnogaeth deilwng iawn o bobl yn bresennol. Gwnaethpwyd elw sylweddol o £587 a braf oedd cael cwmni'r Maer a'r Faeres, y Cynghorydd Huw a Mrs Tegwedd Edwards a chael gair ganddo.

Yn cynrychioli'r Sefydliad roedd Trefnydd y Gogledd, Mr Gwyn Williams, a soniodd am bwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol ac yn genedlaethol. Diolchodd i'r gangen leol am yr holl waith di-flino ac am godi y swm o dros 8 mil o bunnau eleni. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar am bob cefnogaeth mewn rhoddion ac hefyd i noddwyr y noson, Yr Hwylfan, Caernarfon.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â **DOUG JONES**, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCW UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

planed
plant

www.s4c.co.uk/planedplant

TAITH GROTO PLANED PLANT

Dewch i gwrdd â rhai o'ch hoff gymeriadau ar
Planed Plant ynghyd â'r dyn ei hun - Siôn Corn!

Rhagfyr 2001

Dydd Llun

3 Sgwâr
y Frenhines,
Wrecsam
2pm-7pm

Dydd Mawrth

4 Lonparcwr,
Rhuthun
2pm-7pm

Dydd Mercher

5 Maes Parcio
Beefield,
Abergele
2pm-7pm

Dydd Iau

6 Y Maes,
Caernarfon
2pm-7pm

Dydd Gwener

7 Y Maes,
Caernarfon
2pm-7pm

Dydd Sadwrn

8 Canolfan
Hamdden Plas
Arthur, Llangefni
10am-1pm 2pm-5pm

Dydd Sul

9 Maes Parcio
Glaslyn,
Porthmadog
10am-1pm 2pm-5pm

Dydd Llun

10 Maes
Parcio
The Green,
Y Bala
2pm-7pm


Mynediad £2 y plentyn

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â GWIFREN GWYLWYR S4C 0870 600 4141

S4C

YSGOL LLANRUG

Her Tîm Peirianeg i Fyfywrwr



Joe Hill yn derbyn y tlws.

Ar ddydd Mawrth 10 Hydref cynhaliwyd yr her yn Neuadd Powis ym Mhrifysgol Bangor gan yr ELW (Dysgu ac Addysg Cymru) a'r Awyrlu Brenhinol, Cranwell.

Mynychodd o gwmpas 200 o fyfyrwrwr o ysgolion Gwynedd gan gynnwys dosbarth Ffiseg Bl.13 Ysgol Brynrefail.

Wedi cyrraedd a chofrestru aeth pawb i'r brif neuadd ble cawsom ddiffiniad o'r sialens, sef parasiwt. Roedd rhaid dylunio a chreu parasiwt bychan o ddeunydd meidrol gyda phwyntiau yn cael eu rhoi am gywirdeb, amser yn yr awyr a dyluniad creadigol.

Pob grwp wedyn yn mynd ati i drafod bag o ddefnyddiau a thaflen amcanion. Roedd deunydd silc, papur a *polythene* ar gyfer y parasiwt a rhaff, clipiau papur a glud. Roedd rhaid cymryd pris i ystyriaeth gan mai'r amcan oedd creu parasiwt mor rhad â phosib.

Pob grwp yn chwysu wrth

geisio dyfalu pa fath oedd y gorau; parasiwt mawr ar gyfer gwario llawer o amser yn yr awyr neu un bach ar gyfer taro'r targed yn y canol?

Daeth y chwysu i ben gyda phrofi'r holl barasiwts. Eu gollwng o chwe metr o uchder a'r marciau'n cael eu rhoi am gywirdeb, amser yn yr awyr a dyluniau creadigol.

Cawsom wedyn sgwrs gan gynrychiolwyr yr awyrlu brenhinol a darganfod mai parasiwt mawr gyda thwll bach yn y canol ar gyfer cydbwysedd, a rhaff hir ar gyfer cywirdeb oedd y math gorau.

Cyflwynwyd y gwobrwyon i'r tri tîm cyntaf ac roedd Joe Hill Bl.12 yn rhan o'r tîm bududgol. Llongyfarchiadau Joe am ddod a chlod i'r ysgol ac i ti dy hun.

Yn wir roedd y sialens beirianeg yn brofiad gwych a byddwn i gyd yn elwa o'r profiad.

Tom Hughes Bl.12.

Ymweliad Uned 5



Yn y llun gwelir Daniel Jones, Sonny Chidwick, Sion Hughes a Huw Humphreys - a'r fan wrth gwrs!

Ar fore Mercher, 29 Hydref ymwelodd criw Uned 5 â'r ysgol i gynnal cyfweiliadau ar gyfer eu slot 'Ffans yn y Fan'. Y dosbarth lwcus oedd 7i a chafodd pawb gryn hwyl yn sgwrsio yn y fan am eu hoff bethau a'u diddordebau. Clywyd si bod yn

rhaid tynnu ambell ddisgybl o'r fan gan eu bod yn siarad cymaint! Bydd ffrwyth llafur y disgyblion yn cael ei ddarlledu ar nosweithiau Llundun ar Uned 5 a bydd yn rhan o Noson Wobrwyo'r rhaglen yn ddiweddarach.

Plant mewn Angen (gweler yr hanes ar dudalen 3)



Coginio'r Bara Brith.



O geiniog i geiniog...

Eisteddfod yr Ysgol

Cynhaliwyd yr eisteddfod flynyddol ar 18 Hydref ac fel arfer roedd safon uchel i'r cystadlu yn ogystal â bwrlwm a hwyl.

Pawb yn cofio bod yn y tŷ wnaeth ennill ond eleni Eilian ddaeth i'r brig, gyda Eryri yn ail, Gwryfai yn drydydd ac Elidir yn olaf.

Bydd y cystadlu wedi hen ddechrau yn yr adrannau wythnosau cyn yr eisteddfod ei hun a dyma enillwyr y tlysau pwnc.

Gwyddoniaeth: Michelle Allsup 9E; Saesneg: Bleddyn Jones 100; Ffrangeg: Kayleigh Jones 8S; Dylunio a Thechnoleg: Debbie Hughes 9E; Celf: Jamie Toms 11I; Dyniaethau: Debbie Hughes 9E; Technoleg Bwyd: Nia Glyn 9S; Mathemateg: Ifan Dafydd Owen 9I; Cymraeg: Joseph Owen 80; Cyfrifiadureg: Sion Roberts 9I. Gyda thlws am fwyaf o farciau am weithgareddau ymlaen llaw yn mynd i Mererid Gordon 7N. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

Huw Foulkes, Bl.10E, Lois Eifion Bl.7E a Debbie Hughes 9E gafodd y mwyaf o farciau o'r llwyfan. Ôl tipyn o ymarfer yng ngwaith y tri yma. Da iawn chi a daliwch ati.

Kayleigh Jones 8S aeth â gwobr Emma Bernard am yr adroddiad orau yn y steddffod, tra roedd Sioned Wyn Jones Bl.12 wedi rhoi'r datganiad offerynnol gorau. Dyna beth oedd safon!

Cipiwyd y gadair eleni gan Nora Ostler, Bl.13 ac aeth tlws y llenor ifanc i Sophie Gordon Bl.9 gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad, Tammi Gwynn, yr actores a chyn-ddisgybl.

I dŷ Eryri yr aeth Cwpan y Parti Bechgyn; y Sgets a'r Cwpan Dawnsio Disgo.

Aeth y cwpan am fwyaf o farciau Offerynnol a'r cwpan Cân Ysgafn i Elidir ac i Gwryfai yr aeth Cwpan John Parry (parti adrodd). Wrth gwrs fe gafodd Eilian fwy! Tlws Marciau Ymlaen Llaw, Cwpan Parti Ffrangeg, Cwpan Mrs Welch (Côr Deulais) ac wrth gwrs Cwpan y Tŷ Buddugol.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n hyfforddi'r holl blant a gymrodd ran. Tipyn o gamp gennyh chwi yn y chweched dosbarth.

Dyma Sylwadau'r Capteiniaid Ymdrech deg gan Gwyrfaï eto, ac er i ni ddod yn drydydd nid ennill yw popeth! Roedd rhaid rhoi cyfle i bawb arall! Diolch i bawb yn y chweched dosbarth a Heledd Jones, Bl.11 am hyfforddi pawb o aelodau tŷ Gwyrfaï. Gwaith caled iawn oedd cael trefn arnynt ac roedd y capteiniaid yn cael hunllefau a thrafferthion cysgu oherwydd y cnafon bach. Wrth gwrs, rhaid canmol a llongyfarch Nora Ostler am ennill y Gadair. Tipyn o gamp. Llongyfarchiadau.

Owain Ginsberg
* * *

Wel tydi hi'n braf erbyn hyn a'r steddffod drosodd. Nefoedd yw cael amser cinio cyflawn i ni'n hunain. Dim mwy o angen rhedeg ar ôl creaduriaid rhyfedd blwyddyn 7. Dim mwy o lusgo a chario hogia'n tŷ ni i ymarfer y parti bechgyn. Dim mwy o weiddi ar y côr adrodd. A dim mwy o sgrechian mewn iaith dramor 'Le weekend, cést fantastique!'

Onid na, roedd hwyl bwrlwm i'w gael ymhlith eisteddfodwyr brŵd tŷ Eryri. Er mai tenau oedd y niferoedd oedd yn troi i fyny ar gychwyn ein hymgais i ennill y cwpan, yn sydyn, yn 'syth allan o'r glas' llifodd degau o ddisgyblion awyddus i'n hymarferion wrth glywed si am WERSI RHYDD!!

Cawsom lwyddiant i dalu am ein hymarferion llafurus. Er i ni gollu'n lleisiau wrth drïo dysgu'r parti bechgyn, fe ddaethom i'r brig gan adael gweddill y tai wedi'u syfrdanu gan ganu swynol a symudiadau slic ein hogia ni! Nid y bechgyn

yn unig oedd yn symud yn slic ar y llwyfan, hwyl oedd gweld bechgyn yn y gynulleidfa yn syllu'n geg-agored ar ein wyth dawnswraig broffesiynol.

Pinacl yr eisteddfod, heb os nac oni bai, oedd ein sgets ni. Diolch i sgriptio dawnus yr hen drombôn a wyneb PJ oedd yn bictiwr i goroni'r cwbl. Er hyn i gyd, cawsom gam gan mai ail y daethom. Ond, fel y dywed yr hen air, ail eleni, cyntaf y flwyddyn nesaf. Jest gobeithio y bydd pawb â'r un brwdfrydedd y flwyddyn nesaf hefyd i ni gael curo Eilian! Diolch yn fawr i bawb.

Owain Sion a Sioned Wyn Jones

* * *

O'r diwedd steddffod arall wedi mynd heibio! Dim mwy o weiddi a thynnu gwallt. Diolch byth fe newidiodd nifer y disgyblion yn yr ymarferion o 3, hynny yw y capten, is-gapten a'r ysgrifenyddes, i ystafell lawn o fwncïod gwyllt ac anwaraidd. Wn i ddim ai arbenigedd y chweched a newidiodd y mwncïod yma yn angylion ynteu y 'bribe' o siocled ar ddiwedd yr eisteddfod, ond chwarae teg, dechreuodd pob un wneud ei orau. Erbyn dydd Iau, roedd pob dim yn berffaith ond am y sgets a 'can-can' yr hogiau! Ond ar ddiwedd y dydd aeth pob dim yn 'ffantastig'.

Heb y disgyblion ni fuasai Eilian wedi bod yn fuddugol y nos Iau hwnnw a dymuna pob aelod o'r chweched ddweud DIOLCH i chi i gyd am eich ymdrech.

P.S. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r siocled. Y Diawled!

Erin Eifion
Eilian

Gweler mwy o luniau o'r eisteddfod yn yr atodiad arbennig yng nghanol yr eco.

Blwyddyn 11 ar brofiad gwaith

Gyda llawer o ddiolch i'r cyflogwyr lleol sydd bob amser yn barod eu cymwynas yn derbyn ein disgblion yn ystod yr amser gwerthfawr yma yn eu gyrfa ysgol.




Anghofiwch 'Bob y Builder'. Beth am Mathew gyda chwmni adeiladu Hefin Williams, Bontnewydd.



Samantha wrth ei bodd gyda plant Ysgol Maesincla.



'Come fly with me' Emyr wrth ei fodd ym maes Awyry Caernarfon.



Steven yn gweithio gyda Ceir Cymru - Bethel.



Sioned Jones Unawd offerynnol gorau.



Mererid Gordon, Tlws am fwyaf o farciau ymlaen llaw.

Gwelliannau'n y Fro

Ddwy flynedd yn ôl trefnwyd cyfarfodydd agored ym mhentrefi Bethel, Seion a Rhiwlas i ymgynghori ynglŷn ag anghenion y pentrefwyr. Cafwyd ymateb arbennig o dda a drwy hyn rwyf wedi ceisio gweithredu ar yr argymhellion hyn.

Mae wedi bod yn bosib cael y maen i'r wal yn arbennig o dda cyn belled ac y mae Bethel a Rhiwlas yn y cwestiwn, ond braidd yn siomedig hyd yn hyn yw sefyllfa Seion.

Ar 20 Tachwedd roedd yn bleser cael adrodd yn ôl i bentrefwyr Bethel mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau yn yr ardal ers 1999. Dyma be gyfeiriwyd ato:

Gwaith wedi ei orffen

Croesfan o flaen yr ysgol; Marciau 'Araf' ar ffordd Penrhos; Ail-wynebu ffordd Penrhos; Ail-wynebu maes parcio'r neuadd; Ail-wynebu man parcio o flaen yr ysgol; Marciau 30 ac 'Araf' ar y ffordd fawr; Ail-wneud Stryd Bellaf Saron; Ail-wynebu Lôn Gefn Cremlyn; Giatiâu a ffens newydd yn y maes chwarae (mae perygl i'r swings ac ati gael eu tynnu i lawr oni bai fod y fandaliaeth cyson yn dod i ben, mae'n anodd credu fod rhywrai yn gwneud difrod i offer chwarae plant a thrwy hyn mae'r gwaith o ail-osod a rhoi cyfarpar newydd yn debygol o gael ei ohirio); Adnewyddu rhannau o'r system carthffos.

Gwaith sydd ar fin cael ei gwblhau Twmpathau tawelu traffig o Gapel Bethel i Tre'r Gof.

Gwaith sydd wedi ei drefnu at 2002.

Ail-wynebu Stryd Ganol, Stryd Bach a'r ffordd o Saron heibio'r neuadd i gyffordd Tre'r Gof; Lloches bws newydd ger yr ysgol. (drwy gyd-weithrediad Cyngor Cymuned Llanddeiniolen). Yma hefyd mae hyn yn amodol nad oes difrod yn cael ei wneud fel sydd yn digwydd i'r un bresennol.

Os caiff y lloches newydd lonydd yna fe fydd yn bosib gosod un newydd dros y ffordd i Stad Bron Gwynedd.

Gwaith rwy'n obeithiol o gael eu hystyried yn 2001

Cylchfan Groeslon Tyddyn Hen; Symud arwydd 30 heibio Erw Bian; Llwybr troed o Erw Bian i gysylltu â'r llwybr sy'n rhedeg o

fynedfa Tyddyn Andrew Isaf; Tacluso ac ail-wynebu mynediad i Stad y Rhos; Mannau parcio Stad Bro Rhos; Tacluso ymylon y ffordd yn Tre'r Gof.

Yn ogystal â hyn gofynnwyd i swyddogion y cyngor am eu sylwadau ar y pwyntiau canlynol: Cyffordd ffordd y Neuadd a ffordd Tre'r Gof; Cyffordd Cysegr; Goryrru ar Stryd Bellaf; Parcio o flaen yr ysgol; To y neuadd; Llwybr bleisio.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu diddordeb ac yn enwedig am eich cefnogaeth, sy'n gwneud y gwaith yn bleser.

Byddaf yn trefnu cyfarfodydd pellach yn Seion a Rhiwlas yn gynnar yn y flwyddyn newydd er mwyn adrodd ar y gwaith sydd mewn llaw yma, ac wrth gwrs i dderbyn arweiniad pellach ar eu hanghenion.

Pwynt mawr o ddiddordeb ac sydd o ddiddordeb i'r holl etholaeth oedd adroddiad ar gynllun cymorth i drigolion lleol brynu tai yn eu bro enedigol. Gweithredir y cynllun gan Gymdeithas Tai Eryri.

Mae'r cynllun yn gweithredu fel â ganlyn: Os yn dymuno prynu tŷ yn yr ardal a'r cyflog ddim yn dod i fyny at ofynion safonol cael morgais (2.5 neu 3 gwaith cyfanswm cyflog) drwy gofrestru gyda Chymdeithas Tai Eryri bydd yn bosib, pan ddaw eiddo ar gael ble mae diddordeb mewn prynu, gael benthyciad arian am y gwahaniaeth rhwng uchafswm morgais sydd yn bosib a'r pris prynu

e.e. teulu â dau o blant efo diddordeb mewn tŷ pris £69,000. Cyflog yn caniatáu morgais o £60,000. Byddai'n bosib gwneud cais am fenthyciad o £9,000. Byddai hyn yn ddi-log ac ni fyddai'n rhaid ei dalu'n ôl oni bai i'r tŷ gael ei werthu eilwaith. Dyma'r uchafswm pris tŷ sy'n berthnasol:

Person sengl: £53,000
Teulu heb blant: £65,000
Teulu + 1 plentyn: £69,100
Teulu + 2 neu 3 plentyn: £73,000
Teulu + 4 plentyn: £85,000
Teulu + 5 plentyn: £96,900
Mae manylion pellach, mwy manwl a ffurflenni cais ar gael gan Tai Eryri ar (01286) 881 588.

Huw P. Hughes
Cyngorydd

antur WAUNFAWR

Bwyty Blas y Waun

CINIO NADOLIG PENSIYNWYR

Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr am 12:00 cinio Nadolig
3-chwrs traddodiadol cartref - £6.50

I sicrhau lle bydd yn rhaid bwcio o flaen llaw
trwy gysylltu â'r swyddfa.

Cofiwch archebu yn fuan eich nwyddau Nadolig -
Teisen Nadolig, Pwdin, Ham Cartref, Mins Peis Arbennig
Coed a Thorchau Nadolig
Galwch yn Siop Bryn Pistyll i weld dewis o anrhegion arbennig

01286 650 721

ANTUR


R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846


G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiâu, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol


DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL




Capteiniaid Elidir.



Capteiniaid Gwyrfa.



Capteiniaid Eryri.



Capteiniaid Eilian.



Nora a Sophie.



Huw, Debbie a Lois.



Kaylie, Tlws Adroddiad Unigol.



Enillwyr y Tlwsau Pwnc.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr John Trefor, Modurdy Hafod a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam annwyl yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn yn dilyn llawdriniaeth yn y Royal Infirmary Lerpwl.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan ddiolch i'r teulu, ffrindiau a thrigolion Hafan Elan am y cardiau, anrhegion, blodau ac arian a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs Betty Peris Jones, Cartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon (gynt o 19 Hafan Elan) Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i holl ffrindiau yn Llanrug. Diolch hefyd i'w chyn-gymdogion yn Hafan Elan a'r pentref am eu caredigrydd tuag ati tra'n byw yn yr ardal.

Fe dymuna Mrs Elizabeth Jane Hughes, 23 Hafan Elan Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w chymdogion a ffrindiau a diolch am eich ffyddlondeb a'ch caredigrwydd.

Gan na all Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, anfon cardiau allan eleni dymuna Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Well i'w chymdogion, ffrindiau a gofalwyr, aelodau Capel y Rhos a darllenwyr yr Eco.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Dyfed a Rhian Whiteside Thomas, Glanffrdw ar enedigaeth merch fach, Anna, chwaer i Robin.

YSGOL GYNRADD LLANRUG WEDI GWELLA. Rydym yn falch fod Mr Wyn Griffith wedi gwella ar ôl llawdriniaeth i'w benglin ac yn ei groesawu yn ôl atom i'r ysgol.

Diolch i Mrs Ann Evans a Mrs Myfanwy Parry, y ddwy o Benisarwaun a fu yng ngofal disgyblion Blwyddyn 4 yn ystod ei absenoldeb.

CROESO i 'Anti Bethan' ein cogyddes newydd. Mae eisoes wedi ymroi i weithgareddau'r ysgol trwy baratoi'r 'chips' ar gyfer y Noson Tân Gwyllt a gynhaliwyd ar fuarth yr ysgol nos Lun, 5 Tachwedd.

NOSON CALAN GAEAF daeth gwrrachod ac ysbrydion o bob math i'r disgo yn neuadd yr ysgol. Roedd pob un ohonynt yn mwynhau dawnsio, bwyta creision ac yfed pop.

YMATEB I'R APÊL. Bu ymateb ardderchog eto eleni i'r ymgyrch i gyfrannu llond bocsg esgidiau o anrhegion ar gyfer 'Operation Christmas Child' gan blant yr ysgol. Daeth un eneth fach, Jennie Bl.1., a phedwar ar ddeg bocsg i'r ysgol.

Bore Gwener, 16 Tachwedd daeth pob un disgybl i'r ysgol wedi gwisgo eu dillad pob dydd, a thalu dirwy am wneud hynny. Casglwyd £120 at Gymdeithas Apêl Plant Mewn Angen.

PROFIAD GWAITH. Mae Miss Rhian Williams a Miss Manon Jones, dwy fyfyrwraig o Goleg Prifysgol Bangor wedi treulio hanner tymor yn yr ysgol yn cael profiad o weithio gyda phlant. Diolch iddynt am eu cwmni a'u cyfraniad a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

AR Y TELEDU. Nos Sul, 18 Tachwedd darlledwyd y bennod gyntaf o'r ddrama deledu 'Ystafell Ddirgel' a seiliwyd ar nofel Marion Eames. Cafodd pymtheg o ddisgyblion yr ysgol gyfle i gymryd rhan yn y ddrama a byddant i'w gweld yn ystod y gyfres.

CYMDDEITHAS ATAL CREULONDEB I ANIFEILIAID.



Plant yr ysgol yn cario bocsgus 'Operation Christmas Child' i'r trelar.



Jennie a gyfrannodd 14 o bocsgus i'r ymgyrch.

MEILYR SIÔN OWEN



Dyma Meilyr Siôn Owen, Hafod y Rhos, Llanrug. Fe enillodd Dystysgrif 'Master Diver' iau fis Hydref eleni. Dyma'r safon uchaf y gall Meilyr gyrraedd oddi fewn i'w oedran ar hyn o bryd.

Mae'n deifio bob pen-wythnos yn Llanberis a sawl lle arall a'i ddymuniad yw bod yn hyfforddwr ei hun yn y dyfodol.

Dymuna Meilyr ddiolch i Jurg Dahler a Siân Riching o Ganolfan Vivien, Llanberis am ei hyfforddi.

Mae ei lwyddiant yn

ardderchog gan nad yw ond newydd gael ei ben-blwydd yn 14 oed. Yn barod mae ganddo dystysgrifau am a) Scuba iau - dŵr agored; b) Scuba iau-uwch - dŵr agored; c) pump cwrs nodweddiol arbennig sydd yn cynnwys ffotograffiaeth deifio nos; defnyddio siwt sych; naturiaethwr a pherfformiad hynofiant; ch) cerdyn Cymorth Cyntaf meddygol; d) cerdyn deifio achub bywyd. Da iawn chdi, Meilyr.

Daeth Mrs Thomas, gweithwraig gyda'r gymdeithas i drafod ac i ddangos i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 sut i ofalu am eu hanifail hoff.

SION CORN. Nos Fercher, 5 Rhagfyr, gobeithiwn yn fawr y daw Sion Corn i ymweld â'r ysgol yn ystod 'Noson y Nadolig' a drefnir gan Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol. Hefyd bydd band pres Llanrug yma i'n diddanu a'r Consuriwr Mr Howard Hughes gyda sioe hud a lledrith. Mae'n argoeli'n dda, gyda gemau hwyl i'r plant.

GWEITHGAREDDAU BL. 6. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â Choleg Menai i fwynhau profiadau mewn Gweithdy Gwyddoniaeth a chael budd o'r achlysur gan eu bod yn astudio'r corff yn eu gwaith thema.

Daeth y darlledwr a'r newyddiadurwr enwog, Mr John Roberts Williams., sy'n byw yn y pentref, i sgwrsio am ei yrfa ac am gynhyrchu'r ffilm 'Etifeddiaeth'. Cafodd y plant gyfle i'w holi a chawsant lawer o wybodaeth a gair o brofiad am y byd cyfathrebu.

Ymwelydd arall oedd Brenda Wyn Jones, y nofelydd plant. Mae Bl. 6 yn astudio ei chyfrol 'Sais Ydi o, Miss!' yn eu gwaith thema. Cafodd y plant ei holi am y nofel ac am y ffordd y mae'n mynd ati i gasglu deunyddiau ar gyfer ysgrifennu nofelau hanes i blant. Mae ei llyfr newydd sbon 'Ble mae John Iorc?' (nofel i blant am gyfnod y Rhyfel Cartref) yn y siopau llyfrau erbyn hyn.

Cymerodd y plant ran yn y rhaglen deledu Uned 5 yn Stiwdio Barcud a chael gyfle i gyfarfod y cyflwynwyr. Bu rhai hefyd yn sgwrsio am gynnyrch y wasg a'r byd ffilmiau yn uned symudol Uned 5 ar achlysur arall.

GALA NOFIO'R URDD. Bu timau dan 12 a 10 oed yn cynrychioli Adran yr Ysgol yn y Gala Nofio ym mhwl nofio Bangor. Daeth amryw o'r rhai dan 12 oed yn ail yn eu cystadleuaeth.

Yng ngala'r plant dan 10,

cafodd Awen Hughes gyntaf yn y ras pili-pala a thrydydd yn y ras dull rhydd. Cafodd Wena Green hefyd gyntaf yn y ras dull cefn. Daeth timau ras gyfnewid cymysg a rhydd y genethod yn drydydd. Da iawn chi, a phob lwc i Awen a Wena yn y Gala Genedlaethol ym mis Ionawr.

BABI BACH NEWYDD. Llongyfarchiadau i'r Prifathro a Gwenno, ei wraig, ar enedigaeth mab bychan, brawd bach i Llywelyn, Rhodri a Rhun.

CROESO, - A CHROESO.

Estynnwn ein croeso i Wil, Rhian a'u mab bach, Osian i Stâd Nant y Glyn, gan obeithio y byddant yn setlo'n fuan yn eu cartref newydd. Bydd cryn brysurdeb o'u blaenau, oherwydd ychydig ddyddiau wedi symud i'w tŷ newydd, ganwyd brawd bach i Osian. Croeso hefyd i Gwion Rhys i Lanrug.

DIACONIAID. Ar ddydd Sul, 11 Tachwedd derbyniwyd Mrs Nan Humphreys, Pant, Bryngwyn, Llanrug a Mrs Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Caeathro yn ddiaconiaid etholedig yng Nghapel Salem, Caernarfon. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonynt.

Mae canlyniadau Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo ar dudalen 30.

CAPEL Y RHOS

Anrheg Nadolig

Gwasanaeth byr o hanner awr i ddathlu'r Wyl 9.00 o'r gloch bore dydd Nadolig 2001

Croeso cynnes i bawb - bydd croeso i'r plantos (a phawb arall o ran hynny!) ddoed a'u anrhegion efo nhw

Penisarwaun

(Parhad o dudalen 12)

Lowri; 2. Freya; 3. Daniel. Bl.1: 1. Sophie; 2. Nathan; 3. Claire. Bl.2: 1. Liam; 2. Katie; 3. Catrin. Bl.3,4: 1. Sion Dafydd; 2. Anest Bryn; 3. Ffion. Bl.5,6: 1. Margaret; 2. Rhys; 3. Rhian.

Ffotograffiaeth

Cynradd. 1. Endaf a Chris; 2. Marc; 3. Megan Glyn. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Jenny Hamer; 3. Llyr Roberts. Poster Cyfrifadur Uwchradd. 1. Luke; 2. Catrin Elin; 3. Jenny Hamer. Dan 18: 1. Cadi Roberts; 2. Catrin Elin; 3. Llyr Roberts.

Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor Cynradd: Rhian Elin George. Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Sioned Alaw Williams.

WAUNFAWR
Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Madog Jones, Bro Waun ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd merch fach, Elan, i'w mab David a'i wraig: chwaer fach i loan.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau ar enedigaeth gor-wyres fach, Beca Medi, merch fach i'w hwyres Ffion a'i phriod Keith yn Llanberis. Dyma'r bumed 'pedair cenhedlaeth' iddynt.

Hefyd croeso adref o'r ysbyty i Mr Hughes a dymuniadau gorau iddo ar ei ben-blwydd yn 83 oed.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Heledd Elfryn, Coed Gwydryn ar gyrraedd ei un ar hugain oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Heledd.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Lois Angharad, Tan-y-Coed, Stad Bodhyfryd wedi iddi fod yn cael tynnu ei thonsiliau. Gobeithio dy fod wedi gwella yn iawn ac yn ôl yn yr ysgol.

Dymunwn groesawu Mrs G. Jones, Stad Tref Eilian; Mrs Maud Jones, Ael-y-bryn; Mrs K. M. Jones, Gorwel a Mr Richard Charge, Llifon adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad iddynt.

Anfonwn ein cofion at Mrs Catherine Williams, Stad Tŷ Hen sydd yn yr ysbyty ym Mangor ac at Mrs Rhian Jones, Stad Tref Eilian sydd wedi cael ei symud i Ysbyty Eryri.

Anfonwn ein cofion at Mrs Elena Jones, Bryn Meurig sydd wedi dod adref o'r ysbyty.

CYDYMDEIMLO. Tristwch mawr oedd clywed fod Alvona wedi colli ei brwydr yn erbyn ei salwch. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei thad, Mr Bill Lewis, Stad Tref Eilian; ei chwaer June, Valerie a'i brodyr Terry a Nigel yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Ovary, Pant-y-waun yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Ovary.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Janet Smith, Rhoslan yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Dennis Griffith o Gaernarfon.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr John Cotton, Stad Tŷ Hen yn ei

brofedigaeth o golli ei frawd.

YMDDEOLIAD. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mr Gary Davies, Hafan o'i waith gyda chwmni MANWEB. Bydd amser i fwynhau bywyd yn hamddenol rwan!

DYMUNA David a Nia o Gaernarfon, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau yn y Waun am bob arwydd o ddymuniadau da a dderbyniant ar enedigaeth eu merch fach, Elan.

RHIFYN NESAF O'R ECO. Bydd rhifyn y Nadolig o'r Eco yn dod o'r wasg yn fuan iawn ar ôl y rhifyn yma. Os oes gennych newyddion neu neges i'w gyhoeddi ynddo a wnewch chi ddod â nhw mor fuan a phosibl os gwelwch yn dda.

BEDYDD. Fore Sul, 11 Tachwedd, yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parch Gwenda Richards yn gweinyddu, bedyddiwyd Anest, merch fach Sandra ac Emyr, Bryn Meredydd.

CYFARCHION NADOLIG.

Dymuna Nan Huws-Roberts, Bodrida, Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon nag yn derbyn cardiau Nadolig eleni.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sefydliad yn Ffestri Croesywaun ar bnawn lau, 1 Tachwedd gyda Mrs Mair W. Williams yn llywyddu. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a hefyd y llythyr misol.

Croesawodd y llywydd Mrs Pat Parry, fel Cynghorwr Sefydliad y Merched, i gynnal y cyfarfod. Cafwyd adroddiad Mrs Anne V. Williams, yr ysgrifennydd, am waith y flwyddyn ynghyd â'r gwahanol sgysiau a gafwyd. Rhoddodd Mrs Nancy Buckley yr adroddiad ariannol a chafwyd adroddiad y llywydd. Diolchodd Mrs Williams i'r holl aelodau am eu help yn ystod ei chyfnod fel llywydd. Estynnwyd croeso i Mrs Eirwen Llywelyn Jones i roi ei hadroddiad fel cynrychiolydd i'r IGM yng Nghaerdydd.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd: Mrs Catherine A. Jones; Is-lywydd: Mrs Mair W. Williams; Ysgrifennydd: Mrs Anne V.

Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs Pat Parry; Trysorydd: Mrs Wenna Edwards; Is-drysorydd: Mrs Mair Parry; Clwb Cynilo: Mrs Nancy Buckley; Trefnydd y Rhaglen: Mrs Maureen Hughes.

Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Mrs Mair W. Williams, gan Mrs Anne V. Williams.

Y cinio Nadolig ym Meifod fydd y cyfarfod nesaf ar 6 Rhagfyr am 1 o'r gloch y prynhawn.

MERCHED Y WAWR. Eisoes rydym wedi cael dechrau ardderchog i'r tymor. Yn y cyfarfod agoriadol, o dan lywyddiaeth Mrs Mary Vaughan Jones, bu Margiad Roberts, Tudweiliog yn ein diddanu drwy ddarllen ei gwaith. Diolchwyd iddi gan Sylvia, a Gill a Rhian oedd yn gyfrifol am y te.

Yn yr ail gyfarfod bu Rhiannon Roberts, Caeathro yn cynnal gweithdy bach gyda ni ar sut i wneud ein hadduniadau Nadolig ein hunain. Roedd ei gwaith hi'n amrywiol ac yn werth chweil a doedd ymdrech ambell un o'r aelodau ddim yn ddrwg o gwbl chwaith! Cyflwynwyd Rhiannon gan Irene, llywydd y gangen, a diolchwyd iddi am noson wahanol, ddifyr iawn gan Gill. Gofalwyd am y te gan Heulwen a Catherine.

Dathlu'r Nadolig fyddwn ni'n ei wneud yn y cyfarfod nesaf, Nos Wener, 7 Rhagfyr. Byddwn yn mynd am ginio Nadolig i fwyty Oswald's ym Mangor.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos Lun, 19 Tachwedd pan y caed darlith ddifyr ac addysgiadol gan y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon ar un arall a fu'n weinidog yn y dref, sef y diweddar John Roberts. Cadeirydd y noson oedd Gwilym O. Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf, nos Lun, 10 Rhagfyr yn y Ganolfan am 7.30 pan y ceir sgwrs ar 'Hen Gymeriadau Cefn Gwlad' gan Dr Twm Elias - Noson arall o fwynhad yn sicr. Estynnir croeso i aelodau newydd.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**
Down â fo atoch
a'i nôl wedyn
Ffôn: 871782

Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Buones teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Alwyn a Sarah

**Blodau
Racca**

PENISARWAUN Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Dantion blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres




Brysiwch i gael eich
TEGANAU, SIOCLED,
CARDIAU NADOLIG
AC ANRHEGION CAIN
yn siop

**GWYNETH AC EIFION
ROBERTS**

CACENNAU NADOLIG
A BARA BRITH
TRADDODIADOL

**COFIWCH FOD EIN CAFFI CEGIN ERYRI
AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

LLYSIAU ● FFRWYTHAU ● BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

**H.E. HUGHES
A'I FEIBION**

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278

www.ybistro.co.uk

PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr
yr Eco*



Llanberis 870203

*Cyfarchion y
Nadolig oddi wrth
Roger a'r staff a
dymuniadau gorau
am y Flwyddyn
Newydd*

*Ffoniwch am fanylion ein
prydau Nadolig blasus.*

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAPEL COCH: Etholwyd tri o flaenoriaid newydd yn Capel Coch ddechrau mis Tachwedd: Miss Dilys Mai Roberts, Yr Hacia; Mr Colin Jones, Bryn Gelli; a Mr Bert Parry, Sycharth. Ordeiniwyd hwy mewn oedfa arbennig dan nawdd Henaduriaeth Arfon yng nghapel Seilo, Caernarfon nos Fawrth, 20 Tachwedd. Llongyfarchiadau iddynt ar gael eu hethol, a dymuniadau gorau a phob bendith iddynt yn eu gwaith.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd noson ddiddorol y mis diwethaf yn Siop Cae Coch a diolch i Mrs Pat Jones am ei chroeso ac am yr arddangosfa o addurniadau Nadolig. Bydd cyfarfod mis Rhagfyr yn cael ei gynnal yn Festri Capel Coch, NOS IAU, 13 Rhagfyr am 7 o'r gloch. Sylwch mai ar nos lau ac nid ar nos Fawrth y bydd hwn. Ceir noson carol a mins pei yng nghwmni Gareth Jones a chôr Lleisiau Lliwedd. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn, yn cynnwys rhai sydd ddim fel arfer yn dod i'r Gymdeithas. Gwneir casgliad er budd Apêl Hope House Gogledd Cymru a'u nôd o sicrhau Hospis i blant yma yn y Gogledd.

POB LWC i Gwilym Wyn Roberts, 15 Maes Padarn, ar ei swydd newydd fel Cyfarwyddwr Astudiaethau Gofal Iechyd yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd, oddi wrth Mam, Helen a'r teulu.

DIOLCH: Dymuna Mr Percy Jones, Y Berllan, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri, a hefyd ar ôl dod adref.

LLEISIAU LLIWEDD: Dymuna Côr Lleisiau Lliwedd ddiolch i drigolion Cwm-y-glo a'r cylch am eu caredigrwydd ac am y wledd yn yr ysgol ar ôl cyngerdd gyda John Ogwen a Maureen Rhys a'r artistiaid eraill yng Nghapel Tabernacl ar Hydref 21.

DYMUNA Yvonne Lovell, 14 Dôl Eilian ddatgan ei gwerthfawrogiad diffuant am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd yn yr ysbyty ac yna gartref. Diolch o galon hefyd

am yr holl gardiau o dymuniadau da a'r anrhegion.

DYMUNA Dafydd Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddwy oed.

DYMUNA Ann Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Stryd Goodman ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd gan deulu, ffrindiau a chymdogion tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNWN anfon cyfarchion Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n teulu, ffrindiau a chymdogion gan na fyddwn yn anfon cardiau eleni. Helen, Elwyn a Gareth, Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

DAETH LLWYDDIANT i bedwar o fyfyrwyr Clwb Karate Llanberis. Aeth y pedwar i'r Rhyl i gystadlu ym Mhencampwriaeth Karate Gogledd Cymru. Daeth Linda Davies yn gyntaf yn Adran Kata ac yn gyntaf yn Adran Cwffio; Ruth Mowll yn gyntaf yn Adran Kata Iau; Nancy Banji yn ail yn Adran Cwffio Belt Gwyn i Belt Glas; a Ryan Roberts yn bedwerydd yn Adran cwffio i'r plant lleiaf. Roedd yna dros 330 o aelodau wedi cymryd rhan ac aeth 25 o aelodau Clwb Karate Llanberis i gystadlu yno. Llongyfarchiadau iddynt. Os leciwch chi ymaelodi â'r cwlb ffoniwch Sara a Brent ar (01286) 870022 neu (01492) 660977 i fwcio gwers breifat yn rhad ac ac am ddim gydag un o'r hyfforddwy.



Elin Mai

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau, 15 Tachwedd gyda'r Cyngorydd Dai Tomos yn y gadair. Estynnwyd croeso i Emlyn Thomas a Catrin Jones o Goleg Menai, ac Alun Williams o Wasanaeth

Llyfrgelloedd Gwynedd i'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad ganddynt ar y datblygiadau yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn Llyfrgell Llanberis. Nid yw'r ymateb i'r adnoddau sydd ar gael ac i'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn y Ganolfan mor frwdrydig ac mewn ardaloedd eraill, ac apelwyd ar i'r aelodau gynnig syniadau am sut i hyrwyddo a hybusebu'r Ganolfan.

Bu trafodaeth ynglŷn â pherchnogaeth a'r

Frondeg ger Stryd Warden, a chytunwyd i gynnal ymweliad safle fel y gallai'r Cyngor dderbyn cyfrifoldeb cyfreithiol am gynnal a chadw'r llain tir er lles y trigolion lleol. Byddai'r Cyngor yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth y llain tir, gan iddynt yn y gorfannol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am osod offer chwarae ar y tir a ffens o'i amgylch. Gellir cysylltu â'r Clerc neu â'r unrhyw aelod o'r Cyngor.

Derbyniwyd adroddiad am gyflwr y fynwent, a chafwyd ar ddeall y byddai sbwrriel cerrig yn cael ei glirio oddi yno cyn diwedd Tachwedd. Cytunwyd hefyd i godd chwynladdwr ar lwybr canol y fynwent.

Elin Mai

Mae Elin Mai Jones yn 13 oed ac yn mynychu ysgol Brynrefail, Llanrug. Mae yn hoff o ganu ac wedi bod yn cael gwersi gan Siân Wyn Gibson ers 5 mlynedd. Dymuniad Elin yw dilyn gyrfa mewn canu clasurol. Yn ddiweddar mae wedi cystadlu mewn nifer o eisteddfodau: Eisteddfod yr Ysgol, Eisteddfod Gadeiriol Marian Glas, Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Eisteddfod Gadeiriol y Talwrn ac Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Mae tymor yr eisteddfota hyd yn hyn wedi bod yn llwyddiannus iddi gan ei bod wedi derbyn saith gwobr gyntaf a dwy ail wobwr ac mae wedi derbyn tlws am y Perfformiad Gorau dan 21 yn Neiniolen a thlws am y Perfformiad Gorau ym Blynnyddoedd ysgol 7, 8 a 9 ym Methesda.

YSGOL DOLBADARN

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch eleni yn Eglwys Sant Padarn a chafwyd cynulleidfa deilwng iawn yn yr eglwys. Aeth Giesni a Nathan, dau o blith disgyblion hynaf yr Ysgol â basgedaid o ffrwythau i drigolion Plas Pengwaith ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarwch ac roedd y Cartref yn falch iawn o'r rhodd. Casglwyd £130 tuag at yr NSPCC ac fe gyflwynwyd y sic i Mrs Jones Parry o'r mudiad ar ddydd Mawrth 14 Tachwedd. Diolch i bawb am eu haelioni.

MYFYRWYR: Rydym yn falch awn o groesawu Mr Robert Jones i'r Ysgol yr hanner tymor hwn. Mae ar ei drydedd blwyddyn ar y cwrs hyfforddi athrawon yn y Brifysgol ym Mangor. Bydd Mr Jones yn gweithio efo dosbarth Mr Parry tan y Nadolig. Mae Miss Emma Owen o Goleg Menai hefyd yn treulio deuddydd yr wythnos yn yr ysgol o hyn hyd y Pasg fel rhan o'i chwrs mewn gofal plant.

LLYGAID CATHOD: Mae pob plentyn wedi derbyn anifail â llygaid cathod arno yn ddiweddar. Mae'r adlewyrchion hyn i'w gwsgo er mwyn hybu diogelwch plant wrth gerdded ar hyd y ffordd. Noddir hwy gan Gwmni Adeiladu'r Nationwide fel rhan o ymgyrch genedlaethol i hybu diogelwch. Dengys ymchwil bod plant wyth gwaith yn fwy diogel wrth eu gwsgo.

FFARWELIO: Cyflwynwyd basgedaid o flodau i Anti Annwen cyn hanner tymor i ddiolch iddi am ei gwasanaeth i'r Ysgol fel gofalwraig amser cinio. Pob lwc i'r dyfodol Annwen.

GROESO: Rydym yn estyn croeso i Mrs Michelle Owen ar staff y gegin ac yn gobalithio y bydd yn hapus iawn yn yr Ysgol.

YMWELIAD A'R SINEMA! Ar ddydd Iau, Tachwedd 22ain aeth blynnyddoedd 4, 5 a 6 i'r Plaza ym Mangor i weld y ffilm Harry Potter and the Philosopher's Stone. Roedd pawb wedi cael amser gwerth chweil.

PLANT MEWN ANGEN. Yn ôl yr arfer bu disgyblion blwyddyn 6 yn rhedeg 'calfi' yn ystod bore dydd

Plant Mewn Angen, Diolch i bawb a wnaeth gyfraniad. Llwyddwyd i godi £150.

CYFFURIAU: Derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 lyfryn yn sôn am beryglon cyffuriau. Cynhyrchir y llyfryn gan gwmni 'Honeybee Publications Ltd' ac mae Mr Jones o 'Insulasafe' wedi noddi'r cyhoeddiad, sy'n golygu bod y plant yn derbyn copi yn rhad ac am ddim. Diolch iddo am ei gefnogaeth ymarferol.

GWASANAETH NADOLIG: Mae gwasanaeth Carolau'r Ysgol eleni yn cael ei gynnal yn Capel Coch ar 18 Rhagfyr am 6 o'r gloch.

FFAIR: Bydd Ffair Nadolig yr ysgol yn cael ei chynnal ar nos Wener, 7 Rhagfyr rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Dewch yn llu i gefnogi'r Ysgol.

BARDDONIAETH: Yn gynharach y mis hwn bu plant dosbarth Miss Robert (blwyddyn 5) mewn gweithdy barddoniaeth yn yr Amgueddfa efo'r beirdd Myrddin ap Dafydd a Meirion Macyntire Hughes. Cyfansoddwyd y gerdd hon ar y cyd.

Lliwiau'r Llechi

Mae cig a chaws a bara, Meddai taid yn Abyssinia, A sgleinio fel diamwnt drud Mae'r chwarel yn fawr i brentis bach. Mae'r llechen yn aur i gyd.

Ond doedd y gaeaf ddim yn hawdd, Yn Nhwl Mwg a Sinc Twll Clawdd. Roedd cwmwl uwch y gwaith o hyd Yn britho'i wallt yng Nghwt y Lli. Mae'r llechen yn llwyd i gyd.

Cael briwiau bach wrth naddu A chael coes bren o'r 'Sbyty. A llifai'r gwaed o bryd i bryd Wrth daro'r fargen ar y graig. Mae'r llechen yn goch i gyd.

Ond dal ei thir mae mesen Ar rwbel Hafod Owen. Mae'r ebill a'r dril yn fud Yn Nhwl Dwndwr a'r Sinc Fawr. Mae'r llechen yn wyrdd i gyd.

Mae plant mewn jins o'r pentra' Lle bu tad a theidia', Ac er bod heddiw'n newid byd, Mae'r stori'n fyw ar Sinc Bach Braich. Mae'r llechen yn las i gyd.

PLAS PENGWAITH. Bydd Ffair Nadolig y Cartref eleni ar 8 Rhagfyr a bydd Siôn Corn yn bresennol ynghyd ag arwerthiant o bob math o bethau ar y stondinau cacennau, bric a brac a llyfrau. Hefyd bydd y raffi Nadolig yn cael ei thynnu.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mr L. Morris a Mrs A. Jones. Dymunwn groeso cynnes iddynt.

Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mrs M. Hughes sy'n dathlu y mis yma.

Rydym yn brysur hefyd rwan yn aildrefnu'r Cartref drwy gael lloriau a charpedi newydd ac yn disgwyl cael addurno. Rydym yn ddiolchgar am eich dealltwriaeth am y mynd a'r dwad ar hyn o bryd.

LLONGYFARCHIADAU i Derek ar ei benodiad i swydd newydd fel Uwch Gymhorhydd Gofal dros gyfnod o dri mis yn y Cartref.

DIOLCH. Dymuna Judith a Nigel, 7 Blaen-y-ddol ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr arian, anrhegion a chjardiau a dderbyniodd Dafydd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: I Sara Elisabeth, Bryn Gelli, Gelli Hirbant

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG



41A Stryd Fawr
Llanberis 872501



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret



Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn



Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn, Rhiannon a'r staff

Chwilio am anrhegion Nadolig?

Galwch i'n gweld yn

SIOPAU MYNYDDA JOE BROWN

Menai Hall, Llanberis (01286) 870327

a Capel Curig (01690) 720205

- ★ Dillad o ansawdd da am brisiau rhesymol
- ★ Dewis eang o ddillad hamdden i'r teulu i gyd
- ★ Menyg, hetiau, scarffiau a throwsusau *fleece*
- ★ Esgidiau cerdded

Yr ydym yn cadw stoc o

- ★ Rab
- ★ Marmot
- ★ Sprayway
- ★ Stone Monkey a llawer mwy
- ★ Mammot
- ★ Lowe Alpine
- ★ Brasher
- ★ Wynnster
- ★ Merrell
- ★ Zamberland

Parcio hwylus a chyfleus

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



joe brown

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth yr

Alpine Lodge Hotel



(Bryn Gwyddfán)

1 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: (01286)
870294



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda



oddi wrth

BOB ac ANNIE KANE

Gwesty Erw Fair

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 872400

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr,
na Dydd Calan, 1 Ionawr 2002. Gwasanaeth arferol bob diwrnod arall.

Tro arall am Trier

Pan oedd y mwyafrif o drigolion Dyffryn Peris ar fin hwylio am y 'ciando' nos Wener, 19 Hydref roedd rhai o aelodau a ffrindiau Côr Meibion Dyffryn Peris yn prysur ymgasglu mewn amrywiol fannau i gychwyn ar daith hirfaith i'r Almaen. Cyn i fwyafrif o drigolion y fro ddeffro fore Sadwrn roedd Bys Express, Bontnewydd wedi ei gwasgu'n daclus i mewn i'r *Le Shuttle* yn Folkstone yn barod am y daith o dan y sianel i Calais. Treuliwyd rhan helaeth o ddydd Sadwrn yn teithio drwy Ffrainc a Gwlad Belg cyn cyrraedd tref hynaf Yr Almaen - Trier, yn gynnar gyda'r nos. Yno i'n cyfarfod yr oedd ein hen gyfaill Dafydd Bullock a'i wraig hynaws a charedig, Ulrike. Roedd pawb yn eithaf blinedig ar ddiwedd y daith, ond eto yn benderfynol o gael pryd o fwyd a rhyw lymaid cyn noswyllo! Yn rhyfedd iawn fe ddadebrodd y mwyafrif ar ôl y bwyd ac o glywed am fuddugoliaeth ysgubol Iwerddon yn erbyn Lloegr.

Doedd dim amdani felly ond brasgamu am yr 'Irish Bar' i brofi dathliadau'r Gwyddel! Ond O! y fath siom. Doedd ond un Wyddeles yn y lle, ac ni chynhyrfodd hi ddim pan glywodd am y fuddugoliaeth. Almaenwyr oedd y gweddill. Toedd eu hanner ddim yn gwybod am fodolaeth rygbi! Fe benderfynodd criw go helaeth o'r côr ddathlu yn absenoldeb y Gwyddelod!

Roedd y Sul wedi ei neilltuo fel y câi pawb ymlacio yn teithio'n hamddenol ar bleserfad fodern a moethus i lawr afon enwog Y Rhein. Yno eto i'n tywys ar y daith yr oedd Dafydd ac Ulrike. Roedd Dafydd yn benderfynol mai taith Gymreig fyddai hon a pherswadiodd y capten i godi'r Ddraig Goch i gopa'r mast. Chwifiodd honno'n urddasol trwy gydol y daith deirawr lesmeiriol. Ulrike a'n harwciniodd ar y daith gyda'i sylwebaeth heintus am wlad ei geni a'i magwraeth - gwlad hyfryd a garai'n angerddol. Profiad bythgofiadwy oedd y profiad o lithro'n esmwyth ar ddyfroedd y Rhein gyda'r gwinllanoedd enwog yn frithwaith o bobtu ar y llethrau serth, a chestyll enfawr yn eu gwarchod Yna lleisiau meibion a merched Dyffryn Peris yn atseinio ambell gân werin ac cmyn oddi ar fwrdd y bleserfad gan ddenu nifer sawr o'r teithwyr i ymgynull i wrando a mwynhau. Parhau i chwifio'n falch ac urddasol wranai'r ddraig!

Deuai cyfle i weld Trier yn ystod y boreau yn unig. Dinas hynod ddiddorol yw hon. Dyma ddinas hynaf Yr Almaen gyda'i chysylltiadau Celtaidd a Rhufeinig. Fe adwaenid yr ardal yng nghyfnod y Celtiaid fel



Y côr yn diddori yn yr Ysgol Ewropeaidd yn Luxemburg.

Treveri. Ond olion Rhufeinig sydd ymhobman. Dyma brif ddinas y Rhufeiniaid y tu allan i Rufain ar un adeg. Mae'n werth ymweld â'r Puerto Nigra (Y Porth Du); yr *amphitheatre* a'r baddonau. Dyma dref enedigol tad sosialaeth - Karl Marks, ond yn bwysicach, yn enwedig i'r merched, dyma brif ddinas siopa yr ardal!

Treuliodd y côr y prynhawn Llun yn diddori dros 500 o blant yr Ysgol Ewropeaidd yn Luxembourg. Profiad diddorol iawn gan fod pob un o'r plant dan ddeuddeg oed ac o amrywiol wledydd. Gyda Dafydd Bullock yn esbonio cynnwys y caneuon iddynt cafwyd y teimlad fod y plant yn cael amser i'r brenin. Onid oedd swm côr meibion yn swm dieithr a diddorol iddynt? Roedd y gwrandawriad yn rhyfeddol, a'r farn gyffredinol oedd fod y côr wedi cael llawer gwell derbyniad gan rhain na'r derbyniad a arferai yr hen Bangor Trio ei gael gan blant Ysgol Brynrefail 'slawer dydd! Roedd cyngerdd i oedolion i ddilyn gyda'r nos a throdd torf dda i fyny. Cafodd rhaglen a pherfformiad y côr ei werthfawrogi'n fawr, a balchder i'r aelodau, ac yn arbennig i Mair a Hefina, oedd gweld y dorf yn codi fel un i gymeradwyo ar y diwedd. Yn nhŷ Dafydd ac Ulrike y cynhaliwyd y wled. Stwffiodd llond bws i'r tŷ i fwynhau'r danteithion ac i dorri syched! Profiad hiracthus ond cto plescrus oedd gweld lluniau o deulu Llanberis Dafydd ar y wal. Yn eu plith, gyda gwên nodweddiadol gellweirus ar ei wyneb, yr oedd llun ci daid - yr anghymharol Ben Roderick, un o'r cymcriadau ffracthaf i droedio daear Dyffryn Peris. Fe daerwn fod y wên yn lledaenu wrth i ambell berl o stori gael ei

hadrodd yn y tŷ y noson honno!

Neilltuydd dydd Mawrth yn ymweld ac un o ryfeddodau Ewrop - Dyffryn y Moselle, un o ardaloedd gwin hynotaf y byd. Rhaid oedd profi'r cynnyrch enwog - a gwnaed hynny gydag arddeliad! Ar ôl teithio am filltiroedd lawer drwy'r dyffryn hardd a oedd yn frithwaith unwaith yn rhagor o winllanoedd diddiwedd fe arhosodd y bws yn Bernkastel. Hen drefflan hynafol, brydfferth a nodweddiadol Almaenig.

Roedd y sgwâr prysur yn frith o barlyrau gwin - a hwnnw yn ysu am gael ei brofi! Ymwthiodd y mwyafrif o'r criw hwyliog i un parlwr bychan a dechreuodd y gwin lifo. Buan y trodd y rhialtwch yn fôr o gân. Heidiai ugeiniau o ymwelwyr i ddrws y parlwr i wrando ac i ryfeddu ar y canu! Agorwyd a blaswyd sawl potel win Mosselle y prynhawn hwnnw ac fe adawyd yr hen dafarnwr yn gegwrth a blinedig ond yn ddistaw fodlon!

(I'w barhau yn y rhifyn nesaf)



Ulrike a Dafydd yn cael eu gwarchod gan y ddraig goch.



Y criw hwyliog ar bleserfad y Rhein.

SWYDDFA'R
POST

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Mal a Debbie

SWYDDFA'R POST

36 Stryd Fawr, LLANBERIS

Ffôn: 870201

Cofiwch fod ein gwasanaethau yn cynnwys

BANCIO PERSONOL A BUSNES ar gyfer

Alliance Leicester, Barclays, Lloyds TSB,

The Co-operative Bank a National Savings

- Talu biliau ● Yswiriant Teithio ● Arian Tramor
- Parcel Force ● Anrhegion a Darluniau Gwreiddiol
- Cardiau ac Anghenion Ysgrifennu

ac, wrth gwrs, holl wasanaethau arferol Swyddfa'r Post

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
Siop Newydd

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr

Llanberis

Beics a Barcudau



Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon

a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr

wythnos: Iau, Gwener,

Sadwrn, Sul, Llun

Haf: 7 diwrnod yr wythnos

ar agor tan 6 pm

Airborne

OZONE

TREK

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



W.J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225



M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Hefyd

JOHN WHITE

THE BODY SHOP

LLANBERIS

★ Trwsio wedi damweiniau

★ Ailsbreio

★ Curo paneli

NADOLIG LLAWN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH

PAT A KEN

CREFFTAU FFERM
CAE COCH

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870777

GALWCH I MEWN AM ANRHEGION
NADOLIG ANGHYFFREDIN

Diolch i bawb am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda

oddi wrth bawb yn y gwesty.

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

★ Priodasau ★ Dathliadau

★ Achlysuron Arbennig

★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau

★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



Royal



Victoria Hotel

wrth droed yr Wyddfa

Annwyl Olygydd
 Syndod o'r mwyaf oedd cael ar ddeall fod adeilad yr hen Co-op. yn Llanberis wedi ei osod ar rent gan gwmni Adwy Cyf fel siop beics. Nid yw'r penderfyniad yma yn gwneud unrhyw fath o synnwyr a does dim rhyfedd fod y rhan fwyaf o'r pentrefwyr yn gynnwys o'r herwydd. Bu siop fwyd yn y safle canolog a hwylus yma yn Stryd fawr Llanberis er 1896 a bu sawl cwyn a gohebiaeth yn ein papurau lleol yn cwyno am y gwacter yn dilyn cau'r siop rai blynyddoedd yn ôl.

Yn yr hen ddyddiau siop y Co-op oedd canolfan pob pentref ardal y chwareli gyda nwyddau yn cael eu hanfon at ddrws y tŷ yn wythnosol. Roedd yn arferiad gan lawer setlo ar ddiwedd y mis, sef diwrnod talu y cyfrif mawr yn y chwarel. Dyma hefyd lle byddai gwagedd y chwarelwyr yn cyfarfod i drin a thrafod materion y dydd a hel dipyn o glecs.

Croesawn y syniad gwreiddiol o brynu'r adeilad gan Gyngor Gwynedd ac roedd yn naturiol i bawb gredu mai prif amcan y pryniant oedd i'w adnewyddu a'i osod fel siop fwyd unwaith yn rhagor. Deallwn hefyd fod bron pob aelod o Gyngor Cymuned y pentref yn ogystal â'n Cynghorydd Sir, Mr Trevor Edwards, hefyd o'r un farn ac yn gwrthwynebu'r penderfyniad amhoblogaidd yma.

Deallwn nad oes yr un o aelodau Cwmni Adwy Cyf yn byw yn y pentref ac anodd yw deall sut y gwnaed y fath benderfyniad gan bobl sy'n estron i Lanberis. Gwelwyd rhai adroddiadau yn y wasg yn honni fod rhai o siopwyr y pentref yn gwrthwynebu llogi'r adeilad fel siop fwyd rhag colli busnes; ond anodd yw deall hyn gan fod siop fwyd wedi ei lleoli yn yr un adeilad er dros ganrif o flynyddoedd heb achosi i unrhyw siop arall fynd i'r wal. Nid oes unrhyw rwystr parcio ger y siop, ac mae dau safle bws o fewn llatheni i'r adeilad gyda'r Fferyllydd drws nesaf a'r banc a'r post o fewn tafliad carreg. Pan holwyd canran o'r siopau roedd yn amlwg fod y rhan fwyaf o'r busnesau o blaid agor siop fwyd gan ddatgan y byddai siop o'r fath yn tynnu mwy o bobl i ganol y pentref. Credwn hefyd mai un o ddyletswyddau Cwmni Adwy Cyf yw paratoi a chynnig gwasanaeth i'r pentref yn ci gyfanrwydd a buasai menter o'r fath wedi bod o lea mawr i bawb ac yn enwedig i'r trigolion hyn.

Dywedodd perchennog siop y Londis yn Llanrug ei bod wedi cyflwyno cais am denantiaeth y siop i gwmni Adwy Cyf ac ychwanegodd fod y siop am gyflogi dau berson yn

llawn amser gyda hyd at naw o staff rhan amser. Dyma brawf arall o ymroddiad y cwmni yma, sydd wedi agor siop hynod o boblogaidd yn Llanrug, i gyfrannu yn sylweddol at economi y pentref. Rhaid canmol cyfraniad siop y Londis yn Llanrug gan ei bod wedi cadw'r hen draddodiad o gludo nwyddau i ddrws y tŷ sy'n wasanaeth amhrisiadwy i'r henoed a'r methodig.

Gan fod tair siop beics wedi bod yn aflwyddiannus yn y pentref yn y blynyddoedd a fu, mae penderfyniad i gefnogi tenantiaeth o'r fath yn un cwbl wallgof. Pan holwyd rhai o brif siopau yn y stryd fawr cafwyd gwybodaeth nad oedd cynrychiolwyr Cwmni Adwy Cyf wedi cysylltu â hwynt i holi eu barn. Roedd pob un o'r siopau a holwyd o blaid cael siop fwyd yn y pentref ac yn honni y byddai datblygiad o'r fath yn atyniad i'r pentref. Rhan bwysig o ddyletswyddau Cwmni Adwy Cyf yw cynnig gwasanaeth i'r trigolion lleol sy'n byw ac yn gweithio yn y pentref. Yn wir, arwyddwyd deiseb gan bron i naw cant o drigolion y pentref yn galw am siop fwyd yn y pentref, sydd yn brawf pendant o farn pobl Llanber ar y mater.

Deallwn fod Cwmni Adwy Cyf yn cael ei gynrychioli gan ddeg o aelodau o ardaloedd Corris, Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Nantlle, Ogwen a Dyffryn Peris. Gwnaed y penderfyniad i osod y siop ar gyfer gwerthu beics gan y ddau gynrychiolydd o Ddyffryn Peris, sydd gyda llaw ddim yn byw oddi fewn i derfynau plwyf y pentref. Tybed sut ar wyneb y ddaear y penderfynwyd beth oedd o les i drigolion Llanber pan nad oedd unrhyw holiadur nac ymgynghori wedi bod gyda'r aelod sirol lleol? Onid y trigolion lleol sy'n bwysig? Sawl un o'r pentrefwyr - yn onest, a fyddai'n cefnogi siop feics? Mac'n annhebygol iawn y byddai pobl leol yn llogi beic am ddwy awr ar bnawn Sadwrn. Unwaith eto, darpariaeth ar gyfer ymwelwyr sydd yma - ymwelwyr sydd yn eiddgar i fwynhau golygfeydd Eryri drwy grwydro ar feics. Beth fydd effaith hyn ar ein llwybrau? Beth fydd yn digwydd i'r siop pan fydd tywydd garw a'r tymor ymweld wedi darford? Pwy sydd eisieu llogi beic yng nghanol dilyn? Rhaid cyfaddef nad ydi Llanberis yn lle sy'n cael llawer o dywydd braf - tywydd beicio!

Ar y llaw arall, byddai siop fwyd yn darparu gwasanaeth parhaol i drigolion lleol ac ymwelwyr - unrhyw un sydd eisieu prynu bwyd. Byddai pawb yn clwio o siop fwyd - nid llond llaw o ymwelwyr yn unig.

Tybed faint o swyddi fydd y siop beics yn ei gynnig a sut

bydd y fenter yma yn gwasanaethu y trigolion lleol yn ei chyfanrwydd?. Faint o bobl fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth? Canran fechan iawn o ymwelwyr sydd yn awyddus i dreulio'u gwyliau ar gefn beic. Os oes diddordeb mewn gwyliau beicio ganddynt mae'n debygol y byddent yn cludo eu beiciau efo nhw.

Cyngor cymuned (parhad o dudalen 23)

Derbyniwyd cwyn fod rwystr wedi ei osod ar lwybr Tŷ Newydd/Coed Mawr, a chysylltir â'r Swyddog Llwybrau ynglŷn â hyn. Yn yr un modd, bydd rhai o'r aelodau'n ymweld â safle'r tai newydd yng nghefn Erw Fair i weld a yw rhediad llwybr Mount Pleasant yn glir, ac a ellir mynd iddo o'r Stryd Fawr.

Adroddwyd fod y gwaith ar y meinciau cyhoeddus bron wedi ei gwblhau, a chanmolwyd gweithwyr Menter Fachwen am eu gwaith.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r posibiladau o osod llinellau melyn ar y ffordd ger Limbo ac o dan y Viaduct, gan fod ymwelwyr sy'n

Mae cymaint o anfanteision yn erbyn agor siop o'r fath nes peri i rywun synnu fod y fenter wedi ei derbyn a'r swyddogion oll yn cefnogi taflu pres da i'r neilltu. Ai diffyg profiad ynteu diffyg synnwyr cyffredin sydd yma? Wn i ddim. Ond mae un peth yn eglur - nid peth hawdd fydd perswadio pobl Llanber fod angen siop feics arall arnynt.

parcio yno yn achosi trafferthion i fasnachwyr lleol. Ynglwm wrth y cais, penderfynwyd gofyn am ofalu fod llain ym Maes Derlwyn yn cael ei nodi fel lle parcio i drigolion yn unig.

Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd fod angen trwsio 'barrier' rhwng y lôn ac afon Goch yn Rallt Goch, Ceunant.

Dymunir atgoffa mudiadau a chymdeithasau o fewn Cymuned Llanberis fod yn rhaid i geisiadau am gymorth ariannol fod yn llaw'r Clerc erbyn y dydd olaf o fis Tachwedd. Bydd yr holl geisiadau yn cael eu cysidro yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a gynhelir yn 'Angorfa' ar nos lau, 20 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch.

'Digon Da I'r Genedlaethol'



Wavell Roberts

Bu'n rhaid i ohebydd yr 'Eco' fynd yn ôl i Siop Wavell am y trydydd tro i geisio cael sgwrs â'r perchennog am ei lwyddiannau oherwydd fod cymaint o gwsmeriaid yn awchu am flasau rhai o'r seigion diweddaraf i ennill gwobrau. Yn ystod y mis diwethaf, enillodd Wavell bump gwobr aur mewn dwy gystadlu - un yn Dudley yng nghanolbarth Lloegr, a'r llall yn Haydock yn Swydd Gachirfryn - ac yr oedd dros ddau gant o gigyddion craill yn cystadlu yn ei erbyn yn y ddwy gystadlu.

Aeth ei Bore Pei â medal aur yn y ddwy gystadlu. Felly hefyd ci sosoj porc traddodiadol, a enillodd iddo y fedal aur a phencampwriaeth cynnyrch cig gorau. Ond y wobwr a'i plesiodd fwyaf y tro hwn oedd ennill yr aur yn Haydock gyda'i bastai ham, cyw iâr a chennin, oherwydd dyma'r tro cyntaf erioed iddo roi cynnig ar wncud pastai o'r fath, heb sôn am ei chyflwyno mewn cystadlu.

Derbyniodd ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid, a ddywedodd fod cynnyrch Wavell yn 'ddigon da i ennill y gystadlu aeth genedlaethol'. A dyna'n union y bydd yn rhoi cynnig arni fis Mawrth nesa'. Mae ei lwyddiannau yn Dudley a Haydock yn sicrhau lle iddo gystadlu ym mhencampwriaeth Prydain a gynhelir yn Birmingham. Siawns na fydd rheswm dros ddathlu yn Llanrug a'r cylch erbyn y Pasg!

Yn sgil ei lwyddiannau diweddaraf daeth llais Wavell yn eitha' cyfarwydd ar donfeddi'r radio - yn cael ei holi ynglŷn â'i gyfrinachau o sut i baratoi'r gwahanol ddanteithion. Yn wir, anfonwyd gohebyddion o rai o bapurau dyddiol Fleet Street i Lanrug i'w gyfnewid. Ond parhau ynghudd yng nghegin y siop mae'r holl risets arbennig, a rhaid ei throedio hi am Lanrug os am flasau cynnyrch y cyfrinachau rheini.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn

 **FFARM FÊL** 
YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: 870218



Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



Cyfarchion
Nadolig
Llanberis

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y

PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol



CYFARCHION
Y TYMOR



i bawb
yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH
LLYN
LLANBERIS



Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Michal a Brigid
Moran a'r plant
Sea Fresh
Chip Shop

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GARY A FREDA
THE GIFT BOX

ac
ALEXANDRA HOUSE

Newsagents
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn 872354

Dewch atom am ddiwedd rhagorol
o Anrhegiona Siocled

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

odyn
copr

66 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 871366

AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY
47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb*

CELF Y
COPÄON
MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb*



DYMUNA
MERVYN, DILYS
a JENNIFER



CASTLE
GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwamoriaid.
Diolch i chi am eich cefnogaeth

*Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets,
Melysion, Llyfrau a llawer mwy*

Padarn
Lake
Hotel

NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
i chi oll



oddi wrth **TERRY**
VAL, LUCY A'R STAFF

LLANBERIS, Ffôn: 870260

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Y Gwalch

Yn y darlun mae fy nhaid o ochr fy mam, John Rowland Jones, gynt o Lan Isaf, Llanddeiniolen, yn cistedd yng nghanol y rhes flaen gyda'i gydchwarelwyr. Wedi'i eni ym 1849 roedd wedi cyrraedd mewn pryd i brofi blinfyd degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel ei frawd, William Rowland. Y ddau, rhwng creigio, wedi adeiladu'r tŷ yma ym 1876. Pan gafodd y talcan ei blicio i'w ailblastro yn ddiweddar, roeddwn wedi gwaredu o weld y fath feini wedi'u codi i fôn y simdda.

O Gernyw yr oedd eu pobol nhw wedi dod, ac yr oedd yna gangen yn byw yng Nghaer Bleddyn, Penisa'rwaen.

Wn i fawr am ei ddyddiau cynnar o ond, ar ôl priodi, aeth i fyw i Dy'n 'Rardd, y Waen Winau, lle ganed fy mam ym 1881. Rhyw John Jones, Penrhyn Bach oedd piau'r tyddyn ac mae yna gytundeb tenantiaeth, ac mae o'n un llym. Tra'n byw yno collasant ddau blentyn bach, ychydig fisoedd oed, Rolant ac Anne. Mae yma hefyd fil oddi wrth Griffith Jones, Joiner, Arthur Terrace, 'to making a pine coffin for a little child, 16 shillings'.

Oddi yno aethant i fyw i Lan Isaf ac o'r fan honno roedd fy nhaid yn cerdded i lawr lôn ddiderfyn Parcia Rhos yn ddyddiol i gyfarfod y car gwyllt ac yn weindio hwnnw, heb gysgod cawnan na bwlltid ar bob tywydd, i'r Gilfach Ddu. Y siwrne yn groes wedyn ar ddiwedd dydd ar ôl bod yn y clogwyn yn rhaffu am gyflog prin a dim ond dydd Nadolig a'r Groglyth o wyliau, a hynny yn ddi-dal.

Roedd o'n helaethu mymryn ar ei gynhygaeth wrth weithio yn achlysurol ar y ffermydd, yn enwedig adag y cynhaeaf pryd y byddai yn pladurio ŷd ymysg criw drwy'r nos o dan y lleuad Fedi, a mynd wedyn ar ei union i'r clogwyn yn y bora - rhywbeth welais i fy hun yn digwydd yn ddiweddarach yn yr hen ffarm - ac yr oedd cynnyrch fel cyflog yn llawn mor dderbyniol ac arian.

Ond doedd ei brofedigaethau ddim ar ben. Collodd fy nain wedyn yn 31 oed ym 1880 ar enedigaeth a chael ei adael yn weddw hefo pedwar o blant - tair hogan a mab bychan, Rolant.

Mae'n anodd gwybod sut yr oeddau nhw'n tynnu drwyddi. Roedd y genod, er lleiad, yn gorffod ffaglu cyn chwcc yn y bora hefo pricia i dwymo dŵr ac yn gorffod mynd i'r pwmp yn y lôn i gael hwnnw. Ond doedd fawr ddiben nadu. Doedd yna ddim llwyfan fel y telcdu iddylt



Chwarel Dinorwig troad y ganrif: fy nhaid o Landdeiniolen yn eistedd yn y canol, hefo mwstas.

hysbysebu eu cyflwr, na gwasanaethau cymdeithasol. Byddai Mam yn sôn am garedigrwydd y Parch Daniel Davies, yr hen berson, a'i ferch Lucy. Roedd fy nhaid yn warden eglwysig, a thrwy eu heiriolaeth, cafwyd lle i fy mam yn y Grand Lodge, y Faenol i weithio, yn un ar ddeg oed, i rhyw hen gwpwl. Un geg yn llai i'w bwydo.

Erbyn diwedd y degawd yr oedd Rolant yn y chwarael ac yn hybu rhywfaint ar y draul, ond lladdwyd o ym Mai 1898 yn bymtheg oed pan aeth wagan tros yr ymyl. Roedd honno yn ergyd uffernol i'r teulu bach, yn enwedig i'r genod. Roedd y chwarael wedi stopio ddiwrnod yr angladd, medda Mam, yr eglwys yn llawn a channoedd eraill yn colli trosodd i'r fynwant a chaeau'r Ynys Lwyd. Cymerodd hydion i'r bobol fynd drwy'r tŷ i 'ffrymu, ac roedd y gwrychoedd yn llawn o fanadl, medda Mam. Pob blwyddyn, pan fyddai'r rheiny yn blodeuo, mi fyddai'n codi hiracth arni hi.

Ymhen cyfnod priododd John Rolant am yr ail waith, rhyw ddynas o Fethesda, a daeth honno a merch i'w chanlyn - Esther - oedd yn BA.

Erbyn hyn yr oedd Gracc, yr hynaf, wedi priodi mab y Rhydau ac wedi mynd yno i ffarmio, ond fu yna fawr o lewyrch arni. Roedd ei hicchyd yn fregus a bu farw mewn amgylchiadau trychinebus wrth geisio adfer ei chasog oddi ar Sipsiwn wrth y coed (fel ag yr ydwyf eisoes wedi ei groniclo yn Rare Welsh Bits, Garreg Gwalch). Gyda hynny bu farw ei ail wraig.

Doedd fy nhaid ddim yn ddicithryn i brofedigaethau. Yn

hynny o beth roedd yn rhannu blinfyd y cyfnod. Does dim ond angen rhoi tro drwy'r hen fynwentydd i sylweddoli beth oedd yn amlygu artaith y 'werin', fel y gelwir hi o hyd, er nad oes gyffelfiaeth mewn moes â'r wir werin, oedd yn cario rhyw urddas syml a synnwyr o gyfrifoldeb a pharch.

Yn gyfochrog â bedd fy rhieni yn Llanddeiniolen roedd yna lechan blaen yn dweud: 'Pump o blant John a Mary Jones, Capel Seion'. Dim enwau, gormod o gost mae'n debyg i'w hargraffu. Ysbeiliwyd honno pan ddaeth rhyw griw yno i 'dwtio'. Ac yr oeddent fel pe baent wedi cymryd yn erbyn fy hen bobol i. Roeddent wedi bod yn hollti llechi ar ben maen fy rhieni ac wedi gadael tomen o siwrwd ar y bedd. Roedd llechan gaboledig ar ffurf arch wedi diflannu oddi ar fy hendaidd, ac yr oeddent wedi pentyrru gwellt Medi ar fedd John Rolant a'i dculu a'i danio nes yr oedd y llechan fel ochr simdda ac yn annarllenadwy. Rwy'n dweud hyn, nid o chwerwder, ond i selio fy nadl ar gyfer rhyw cfridydd dichonol,

efallai pan fydd yr oes bresennol yn cael ei hasesu mewn hanes.

Roeddwn yn meddwl hefyd wrth weld darluniau o'r 'dynion haearn' ymhongar yn Llyn Padarn fel haid o benabyliad mewn pwll (yn gorfforol ac ystyriol), am ba hyd y buasant yn dal i rannu adfyd fy nhaid a'i gymdeithion ddydd ar ôl blinddydd, flwyddyn ar ôl y llall ym mhob eithafiaeth hîn a phryderon tylodi, a heb fawr i'w cynnal yn eu llafur. Ddim yn hir mae'n siŵr, mwy nag y buaswn inna.

Pan ddaeth fy nhad yn ei ôl o'r Mericia yn weddw hefo fy mrawd, roedd Mam wedi rhoi'r gora i weini yn y tai mawr ac yn cadw tŷ i fy nhaid yn y Llan. Priodasant a symud i'r Gors, Llanddeiniolen tros yr esgair, ac yno bu fy nhaid farw yn 77 oed, fy nhgyfanswm i erbyn hyn.

Yr hogyn rybela sydd ar lawr ar y dde yn y llun yw'r diweddar Forus Griffith, Coed Belyn Bach, a'r Gelli. Bu yn organydd yn y Llan am flynyddoedd ac yn athro ysgol Sul i minnau yn yr oes aur honno rhwng rhyfeloedd.

John E. Williams

FIDEO SAIN AMLGYFRYNGOL

Cyngerdd Nadolig neu Ddigwyddiad Teuluol?

Os hoffech chi gacl fidco o'ch cyngerdd Nadolig, neu ddigwyddiad teuluol ar fidco ar gyfer anrheg Nadolig - ffoniwch ni yn fuan i gael pris cystadleuol.

Gallwn hefyd drosglwyddo fideos o system Americanaidd.

1-10,000 o gopiau - does yr un archeb yn rhy fychan nac yn rhy fawr.

Ffoniwch nawr ar
(01286) 880977

Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo

EISTEDDFOD BENTREF. Braff yw cael adrodd bod yr Eisteddfod ar ei newydd wedd wedi bod yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn, 3 Tachwedd. Roedd nifer fawr o blant wedi troi i mewn i gystadlu a braff oedd gweld y neuadd yn llawn. Wedi egwyl a lluniaeth tro y plant hynaf a'r bobl ifanc oedd cystadlu. Unwaith eto cafwyd cefnogaeth frwd gyda'r neuadd yn parhau i fod yn llawn ar ddiwedd y noson.

Y beirniaid oedd Mr Edward Morus Jones (Cerdd), Tammi Gwynn (Llefaru), Annwen Hughes (Llên), Lyn Davies (Coginio a Gwaith Llaw) ac Arnold Jones (Celf).

Y cyfeilyddion oedd Dewi Hughes a Mair Hughes. Arweinyddion y prynhawn oedd Liz Jones a Phyllis Ellis, ac arweinydd yr hwyr oedd Eifion Harding. Bu Anti Jean ac Elin, Lois, Sioned a Catrin yn cynorthwyo ar y llwyfan ac yn dosbarthu'r gwobrau yn ystod y prynhawn.

Diolch i bawb am gyfrannu tuag at y llwyddiant; staff yr ysgol, aelodau y pwyllgor ac yn enwedig pawb a gymerodd ran neu a drodd i mewn i'r neuadd i fwynhau a chefnogi talent lleol. Dyma'r canlyniadau:

Cerdd

Meithrin ac iau: 1. Ceinwen. Bl. Derbyn: 1. Lowri; 2. Cai, Nia, Ceri, Cerin. Bl.1,2: 1. Sophie; 2. Elliw; 3. Catrin. Parti Bl.D,1 a 2: Parti 'Pawb'. Bl.3,4: 1. Anest; 2. Kieran a Sion Dafydd; 3. Ffion a Leanne. Parti Bl.3,4,5,6: Parti Dewi. Bl.5,6: 1. Bethan; 2. Rebecca; 3. Rhys. *Cerdd Dant Cynradd*: 1. Sion Dafydd; 2. Anest; 3. Bethan. *Piano*: 1., Caryl, 2. Awen a Llyr. *Unrhyw ddawns unigol*: 1. Anest Bryn. Bl.7,8,9: 1. Lois Jones, 2. Sioned Alaw. *Unrhyw ddawns mewn grwp*: Grwp Sara. Bl.10-13: 1. Genin. *Piano Uwchradd*: 1. Lois; 2. Anest. *Parti Deulais*: Parti Brynrefail. *Unawd offeryn*: 1. Jenny Hamer. *Deuawd Agored*: 1. Anest a Sion Dafydd; 2. Sophie a Glesni. *Grwp Cân Ysgafn Dros 18* oed: Parti'r Pwyllgor. *Parti Canu Oedolion*: Parti'r Pwyllgor.

Adrodd

Oed Meithrin a iau: 1. Ceinwen.

Bl. Derbyn: 1. Lowri; 2. Ashley; 3. Nia. Bl.1,2: 1. Catrin; 2. Sophie; 3. Elliw. Bl.3,4: Cydradd 1. Sion ac Anna. Bl.5,6: 1. Rhys, 2. Caryl; 3. Andrew. *Parti Cynradd*: Parti Elen. Bl.7,8,9: 1. David Kyle. *Sgets Cynradd*: 1. Grwp Bethan; 2. Grwp Anna. *Parti Oedolion*: Parti'r Pwyllgor.

Llên

Rhyddiaith Bl.D: 1. Nia; 2. Cerin; 3. Cai a Lowri. Bl.1: 1. Sophie Hughes; 2. Claire; 3. Harry. Bl.2: 1. Katie; 2. Catrin; 3. Elen. Bl.3,4: 1. Lois; 2. Anest Bryn; 3. Anna. Bl.5,6: 1. Rhian; 2. Caryl; 3. Gethin. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Cadi Roberts.

Coginio

Bl.2 a iau: 1. Nia; 2. Cai; 3. Ashley. Bl.3,4,5,6: 1. Taliesyn; 2. Llyr Hughes a Rebecca Snowdon; 3. Bethan. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Llyr Roberts a Sara Woodcock; 3. Cadi Roberts. *Oedolion*: 1. Janice; 2. Carys Eddy.

Gwaith Llaw

Oed Meithrin a iau: 1. Sophie; 2. Caitlin; 3. William a Hannah Tomos; Bl.D: 1. Nia; 2. Robin, Tomos, Cai; 3. Daniel Bradbury. Bl.1,2: 1. Sophie a Glesni; 2. Catrin; 3. Claire. Bl.3,4: 1. Sion Dafydd; 2. Megan Glyn ac Anna; 3. Leanne. Bl.5,6: 1. Gethin; 2. Caryl a Dion; 3. Awen a Rebecca. Bl.7,8,9: 1. Catrin Elin; 2. Sioned Alaw; 3. Llyr Roberts. *Oedolion*: 1. Phyllis Ellis; 2. Helen Williams a 'Pwtan'; 3. Pat Jones a 'Lara'.

Arlunio

Oed Meithrin a iau: 1. Iori; 2. Ceinwen; 3. Jordan. Bl. Bl.D: 1. Lowri; 2. Freya; 3. Daniel. Bl.1: 1. Sophie; 2. Nathan; 3. Claire. Bl.2: 1. Liam; 2. Katie; 3. Catrin. Bl.3,4: 1. Sion Dafydd; 2. Anest Bryn; 3. Ffion. Bl.5,6: 1. Margaret; 2. Rhys; 3. Rhian.

Ffotograffiaeth

Cynradd. 1. Endaf a Chris; 2. Marc; 3. Megan Glyn. Bl.7,8,9: 1. Sioned Alaw; 2. Jenny Hamer; 3. Llyr Roberts. *Poster Cyfrifadur Uwchradd*. 1. Luke; 2. Catrin Elin; 3. Jenny Hamer. *Dan 18*: 1. Cadi Roberts; 2. Catrin Elin; 3. Llyr Roberts.

Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor Cynradd: Rhian Elin George.

Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Sioned Alaw Williams.

Atebion Croesair Tachwedd

C	Y	B	I	A	U	L	A	M	P	W	Y	G	E	L	
R	E	F	H	L	R	A	W	O							
A	M	E	R	I	C	A	M	Y	S	G	W	I	E	R	
F	T	H	A	N	A	N	N	B	I						
A	G	O	R	I	A	D	E	U	E	I	O				
N	V	T	H	E	G	N	I	A	R	I	A	N			
C	E	L													
A	N	N	O	G	C	O	L	O	M	E	N	D	A	I	
B	E	D	B	F	F										
A	W	D	U	R	D	O	D	O	L	L	E	I	A	N	
C	H	I	L												
L	L	E	N	O	R	O	B	R	Y	C	C	H	C	H	
F	I	D	D	R	F	A	L	F	I	A	U				
I	T	H	E	W	A	L	I	F	M						
S	T	R	A	U	S	H	E	F	R	Y	D	F	A		
E	Y	T	I	M	D	I	A	N							
G	Y	N	A	U	N	O	S	I	M	O	D	D	I	O	N

Dyddiadur Rhagfyr

- 5 Mer **LLANRUG**. 'Noson y Nadolig' yn yr Ysgol Gynradd
6 Iau **WAUNFAWR**. Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yn Meifod am 1 o'r gloch.
7 Gwe **WAUNFAWR**. Cinio Nadolig Merched y Wawr yn Oswalds, Bangor.
10 Llun **WAUNFAWR**. Y Gymdeithas Lenyddol yn Y Ganolfan am 7.30.
11 Mer **DEINIOLEN**. Parti Nadolig yr Ysgol Feithrin am 1.30
LLANRUG. Merched y Wawr - 'Rhannu a Blasu'
16 Sul **BRYNREFAIL**. Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.00
CAEATHRO. Canu carolau o gwmpas y Goeden Nadolig am 5.00
BETHEL. Gwasanaeth 'Taith y Nadolig' yn Y Cysegr am 6.00
17 Llun **LLANBERIS**. Noson Carolau Ysgol Brynrefail yn Eglwys St Padarn am 7.30
18 Maw **CAEATHRO**. Siôn Corn yn ymweld am 5.45
20 Iau **LLANBERIS**. Cyngor Cymuned yn Angorfa am 7.00
23 Sul **PENISARWAUN**. Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Eglwys St Helen am 2.00
CWM-Y-GLO. Noson o Garolau yn y Tabernacl am 7.00

Rhoddion

- £10 Yvonne Lovell, 14 Dol Eilian, Llanberis
£10 Mrs Sarah Morris-Jones, Treborth Lodge, Treborth, Bangor
£5 Mrs Eunice Roberts, 15 Maes Padarn, Llanberis
£5 Mr Percy Jones, Y Berllan, Llanberis
£5 Ann Roberts, T'n Llwyn, 22 Stryd Goodman, Llanberis
£3 Helen, Elwyn a Gareth Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis
£2 Dafydd Orritt, 7 Blacn y Ddôl, Llanberis

Rustic Garden Furniture

Andrew a Maureen Williams, Bryn Llan Farm, Llanrug, Caernarfon (01286) 677086

Potiau blodau wedi eu plannu yn barod neu i'w plannu nhw eich hunain.

Dewis bychan o blanhigion gwerth chweil ar gael. Anrheg 'Dolig ardderchog.

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Aler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMYAK

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Maregar

BEICS WIL




BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU



SIŌP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

Croesair Rhagfyr



Derbynias atebion i groesair Tachwedd gan Dilys A. Pritchard Jones, Abererch; Olwen Jones, Bethel; Alice M. Griffith, Dinorwig; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; G. Gill, Bangor; N. Hughes, Cwm-y-glo; Eirian Roberts, Llanrug; Ceinwen Williams, Bethel; Moreen Lennon, Llanberis; Alvona Jones, Prestatyn; Nansi

Davies, Rhuthun; M. P. Jones, Clynnog; Mair Evans, Caernarfon; Jennie Williams, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Dorothy B. Jones, Llanrug; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Nant Roberts, Llanrug; Gwen Davies, Y Wirral; I. Jones, Borth-y-gest; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Un di-enw (Ceridwen Williams, Llanrug?)

ac enillydd y mis sef: Eluned Jones, 5 Llwyn Aethnen, Trefor, Caernarfon. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Rhagfyr gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Rhagfyr 11.

1 ar draws, 22 i lawr ydi'r rhai sydd heb gliwiau iddynt

Ar Draws:

- 5 Dyn merchetaidd ... (7)
- 9 ... ac un sy'n bwyta gormod (4)
- 10 Golau bach yn yr awyr neu un llachar ar y llwyfan (5)
- 12 Cenir rhai yr enwog!! (6)
- 13 Anffawd (5)
- 15 Defnydd o'r môr sy'n rhoi blas ar fwyd (5)
- 17 Rhoi marciau bychan, ond eto'n gwirioni ar rywun (5)
- 19 Dinas sy'n rhoi edau wedi eu gwau gan fath o bryfyn blewog! (5)
- 20 Gardd i'r cyhoedd (4)
- 24 Yr agwedd hunan foddhaus sy'n llifo o sgolor graddedig (4)
- 25 Tŷ yr Offeiriad (7)
- 27 Dynion priod? (4)
- 29 Yr hyn a wneir yn aml i gyfeiliant 1 ar draws, 22 i lawr (4)
- 30 Enllyn a wneir o laeth (5)
- 32 Megis Dewi, Andreas, Siôr a Padrig (5)
- 38 Map o'r môr (5)
- 41 Casglu gwisg y ddafad (6)

- 42 Y rhan o'r ffrwyn sydd yng ngheg y ceffyl (5)
- 43 Ateb negyddol i ofyniad yn yr amser gorffennol!! (4)
- 44 Gwyddfor etifeddeg a thras (7)
- 45 Lle i gael diod ar yr hen A55? (9)

I Lawr

- 1 Sillafiaeth geiriau (6)
- 2 Gorffwys am rhyw ugain munud yn yr ysgol? (5)
- 3 Agosáu (4)
- 4 Cloc sy'n canu bob awr? (7)
- 6 Heb gartref (6)
- 8 Wy y pryf bach sut bynnag yr edrychir arno! (5)
- 11 Y stad o fod heb gerpyn amdanoch (7)
- 14 Mab prydfferthaf y cwpl cyntaf? (4)
- 21 Merch lawen? (5)
- 23 Creadur gwirion yn brathu yn ôl! (4)
- 26 Gweddol yw'r ci â'i galon wedi torri! (7)
- 28 S.A.T. neu F? (4)
- 31 Un sydd eisiau bwyd (7)
- 35 Miniog a brathog (5)
- 36 Gall y lanfa fod yn fudr! (5)
- 39 Asgell (5)
- 40 Neidr (4)

Atebion Tachwedd ar y dudalen gyferbyn.



Arddangosfa

Dros gant o beintiadau dyfiriw godidog gan yr artist o Rhyd David Grosvenor



Anrheg Nadolig!

Mae Bistro Connections yn cynnig **ail-lenwad o goffi ffilter am**

ddim, a gwnewch yn siwr eich bod yn manteisio ar **ddisgownt o 10% yn y siop** drwy ddangos yr hysbyseb yma. (tan Rhagfyr 23)

Cyngerdd Nadolig

Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni am 2 o'r gloch brynhawn Ddydd Sul, Rhagfyr 16 yng nghwmni Câr Maibian Dyffryn Peris a Seindorf Dainiolan. **Mynediad am ddim.**

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.



EDISON
MISSION ENERGY

CHWARAEON

Yn Syth mi Dafla'i Saethau



Ruth Evans

Dartiau yw un o'r ychydig gampau lleol ble mae merched yn cystadlu â dynion ar 'gae gwastad', fel petae. Yn wir, mae sawl dyn yn teimlo'n anniddig pan yn cystadlu â merch, a mawr yw'r siom os yw'n colli. A coli mae sawl un wedi ei wneud y tymor yma yn erbyn Ruth Evans, captan tîm Penbont, Llanrug yn adran tri o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch. Mae hi'n ddi-guro yn y deg gêm hyd yn hyn yn y dull 'o gwmpas y bwrdd'.

Yn enedigol o'r Waunfawr, bu Ruth yn taflu dartiau am dros ugain mlynedd bellach. Bu am gyfnod yn chwarae i dim Pendeitsh yn y dre cyn symud i Benbont.

Merch brysur ym myd y dartiau yw Ruth. Nos Lun yw noson Cynghrair Caernarfon, gydag ambell nos Iau ar gyfer gemau cwpan. Ar nos Fawrth, mae'n cynrychioli tîm y Bull, Dcniolen yng Nghynghrair Merched y cylch. Yn y gynghrair yma hefyd mae ganddi record dda iawn. Mae Ruth yn ferch gystadleuol iawn ac, fel captan, yn arwain o'r blaen. Ei theimlad hi yw na ddylai ddisgwyl unrhyw ffafr am ei bod yn ferch. Yn wir, mae llawer yn tystio am ei dawn gystadleuol ymhob gêm. Yn amlwg, mae Ruth hefyd

wedi denu sylw dewiswyr Tîm Dartiau Merched Gwynedd. Mae hon yn dipyn o safon, gan fod y tîm yma yn cystgadlu yn mhencampwriaethau rhyngsirol Prydain. Y pen-wythnos diwethaf, yn eu trydedd gêm o'r tymor, curodd tîm Gwynedd ferched swydd Northampton. Ar y lefel yma, record Ruth yw chwarae tair ac ennill tair. Yn gyd-aelod iddi o dîm Gwynedd mae Rhiain Williams, hithau hefyd yn aelod o dîm y Bull. Ond nid ar lefel tîm yn unig mae Ruth yn cystadlu. Yn ddiweddar bu hi i lawr yn Plymouth yn cynrychioli Gwasanaeth Sifil Cymru ym Mhencampwriaethau Prydain. Wedi diwrnod hynod gystadleuol, colli fu hanes Ruth yn y rownd derfynol. Fel rhan o'r wob, trefnwyd gêm her rhwng Ruth ac un o sêr y byd dartiau, sef Bob 'Coiwboi' Anderson. Ie, 'da chi'n iawn, Ruth enillodd.

Llongyfarchiadau i Ruth. Wedi sgwennu'r erthygl hon nid wy'n teimlo mor wael rwan wedi iddi fy nhuro mewn gêm cwpan yn ddiweddar.

I Ruth

Yn syth, fe dafla'i sachau - yn taro
Y tarw a'r dyblau,
Yn y ffan, rhwng doniau dau
Yr hogan chwala'r hogiau.

Siom

Siom yn wir, na chynhaliwyd y noson wobrywyo flynyddol dan adain Cymdeithas Chwaraeon Arfon eleni. Bu hon yn noson hwyliog dros y blynyddoedd, a nifer o'r prif dlysau wedi dod i fro'r Eco.

Un o'r prif resymau am ohirio'r noson oedd y diffyg enwbiadau a dderbyniwyd. Elfen drist arall wrth gwrs yw fod cyfle wedi ei

golli i adlewyrchu holl lwyddiannau'r ardal yma ar sawl lefel. Yr ydym mor aml yn colli cyfle drwy beidio â channol doniau ein bro, a hefyd yn anghofio diolch i'r llu o wirfoddolwyr sy'n cynnal y gwahanol gampau a chlybiau. Beth sydd o'i le mewn canmol ein hunain weithiau. Gobeithio fod diwrnod agwedd 'wasaidd' y Cymry wedi hen basio heibio.

Chwaraeon Brynrefail



Tîm pêl-droed dan 16 a drechodd Ysgol Dyffryn Nantlle o 6 gol i 0 yn ddiweddar.

Erys diddordeb o hyd yng Nghwpan Cymru pêl-droed a rygbi. Daw un o ysgolion rygbi mawr Cymru - Cardiff High - i Frynrefail yr wythnos hon.

Pêl-droed. Yn ysgol Syr Hugh fydd y tîm -18 yn rownd gyn-derfynol Eryri. Yn John Brights fydd y tîm -14, a'r tîm -16 yn teithio i Ysgol y Berwyn y Bala. Ar lefel Gwynedd mae'r timau -12 a -15 yn cystadlu am y cwpan.

Rwy'n ddiolchgar i'r newyddiadurwyr ieuanc o'r ysgol am eu cyfraniadau. Mewn blynyddoedd efallai y byddant yn edrych yn ôl a chofio nid yn unig y gemau ond hefyd cyd-aelodau'r tîm a gofyn mae'n siŵr, 'Ys gwn i ble mae nhw heddiw?'

* * *

Ar bnawn oer a thamp ganol Tachwedd aeth dau dîm Bl.7 i

Ddyffryn Nantlle. Cafodd Brynrefs ddechrau gwyh pan daranodd Jonathan Cyster chwip o ergyd i'r rhwyd. Sbardunodd hyn y tîm cartref a daeth dwy gôl sydyn iddynt. Yn ôl y daeth Brynrefs i unioni'r sgôr funud cyn yr egwyl, diolch i Laurri Sylvester.

Dechrau da i'r ail hanner, a chic gosb i Brynrefs, ond y gôl-geidwad yn arbed cic Johnny ond yn llwyddo i wthio'r bêl i gyfeiriad David Cashman, ac yntau'n effro i sgorio.

Bryisia Wella

Anfonwn ein cofion at Manon Lloyd Williams wedi ei hanaf-torrodd ei choes yn ddiweddar. Bydd yn rhaid i'r ferch fywiog yma fod a'i 'thraed i fyny' am sbel ysywaeth. A hithau yn cael tymor da, roedd wedi ennill ei lle yn ôl yng Ngharfan Cymru.

Mae Marc y brawd mawr hefyd yn cael tymor da, ac yn rhwydo'n rheolaidd i dîm Bangor. A wclwn ni cf yn dychwelyd yn ôl i rengoedd y gynghrair broffesiynol tybed?

Gôl unigol dda i Ian Morris Jones a 4-2 i Brynrefs. Yn ôl daeth Nantlle, 4-3. Johnny i Brynrefs, 5-3. Gôl flêr ond bwysig i Nantlle. 5-4, ond Johnny eto, 6-4 i Frynrefs. Os oedden ni'n rhynnu yn mynd ar y cae, roedden ni'n chwysu chwartaia yn dod i ffwrdd.

Dewi Alun Foulkes (71)

* * *

Ryda ni'n dal yng Nghwpan Cymru -16 ar ôl curo Dyffryn Nantlle 6-0. Roedd y ddau dîm fwy cyfartal nag roedd y sgôr yn dangos, ond cymrodd hogia Brynrefs eu cyfleon. Mae ysbryd da yn y tîm ac edrychwn ymlaen i fynd i Bala yn y rownd nesaf. Gobeithio y bydd y sgorwyr yn erbyn Nantlle, sef Steven Lewis (3), Ceirion Owen, Jason Deemer a Sam Williams yn dod â'u sgidiau sgorio i'r Bala.

Ceirion Owen a Jason Deemer
Bl.11

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i dîm Bl.8 sy'n gwneud yn ardderchog. Wedi chwarae pedair gêm y mis diwethaf ac ennill y pedair. Gyda thîm Bl.10 yn ennill un ac yn gyfartal yn y llall, mae'n amlwg fod y genethod yn mwynhau llwyddiant mawr yn ddiweddar. Da iawn chi a daliwch ati.

Hoci

Tîm dan 18 yr ysgol yn dod yn ail yn y Twrnament yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Cyfarchion
y Nadolig i holl
dimau'r ardal

